# Arolwg o Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru 2015

# Effaith Economaidd Cerdded Arfordirol yng Nghymru 2014

Sarah McDonough, Beaufort Research Ltd a
Neil Roche, Ysgol Fusnes Caerdydd

Adroddiad Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru 171

## Ynglŷn â Chyfoeth Naturiol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am y gwaith a oedd yn arfer cael ei wneud gan y tri sefydliad cynt, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am rai swyddogaethau a oedd yn arfer cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru yn flaenorol.

Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella mewn modd cynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Rydym yn gweithio dros gymunedau Cymru i warchod pobl a'u cartrefi, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl, rhag digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a llygredd. Rydym yn rhoi cyfleoedd i bobl ddysgu, defnyddio ac elwa ar adnoddau naturiol Cymru.

Rydym yn gweithio i gefnogi economi Cymru trwy alluogi'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gynnal swyddi a menter. Rydym yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac i ystyried cyfyngiadau amgylcheddol wrth iddynt wneud penderfyniadau pwysig.

Rydym yn gweithio i wella ansawdd yr amgylchedd ar gyfer pawb, ac rydym yn gweithio i wneud adnoddau'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn fwy cydnerth rhag newid i'r hinsawdd a phwysau eraill.

## Tystiolaeth o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaeth, ein penderfyniadau, ein gweithrediadau a'n cyngor ni ar gyfer Llywodraeth Cymru ac eraill yn cael eu hategu gan dystiolaeth gadarn y mae ei hansawdd wedi'i sicrhau. Rydym yn sylweddoli ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth o'n hamgylchedd newidiol ni, gan wneud y canlynol:

- Cynnal a datblygu sgiliau technegol arbenigol ein staff
- Sicrhau ein data a'n gwybodaeth ni
- Meddu ar raglen gwaith ragweithiol – ac iddi adnoddau da – sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Parhau i adolygu ein tystiolaeth ac ychwanegu ati i sicrhau ei bod yn addas i'r heriau sy'n ein hwynebu
- Cyfathrebu ein tystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Mae'r gyfres hon o Adroddiadau Tystiolaeth yn gweithredu fel cofnod o waith a gafodd ei gwblhau neu ei gomisiynu gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae hefyd yn ein helpu i rannu ein gwybodaeth ac i annog pobl eraill i'w defnyddio, ac i ddatblygu gwaith cydweithredol yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r safbwyntiau a'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o reidrwydd yn rhai Cyfoeth Naturiol Cymru, ac felly ni ddylid eu priodoli i Gyfoeth Naturiol Cymru.

| | |
|---|---|
| Rhif yr adroddiad: | 171 |
| Dyddiad cyhoeddi: | Mis Hydref 2016 |
| Rhif y contract: | 375 EOG 13 |
| Contractwr: | Beaufort Research Ltd |
| Rheolwr y contract: | A. Whelan and Q. Grimley |
| Teitl: | Arolwg o Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru 2015 ac Effaith Cerdded Arfordirol yng Nghymru 2014 |
| Awdur(on): | S. McDonough ac N. Roche |
| Adolygydd/adolygwyr cymheiriaid: | R. Cardwell, J Gossage ac S. Williams |
| Cymeradwywyd gan: | J. Bulbeck |
| Cyfyngiadau: | Dim |

## Rhestr ddosbarthu (graidd)

| | |
|---|---|
| Llyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor | 2 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 1 |
| Llyfrgell Prydain | 1 |
| Llyfrgell Llywodraeth Cymru | 1 |
| Llyfrgell Treftadaeth Naturiol yr Alban | 1 |
| Llyfrgell Lloegr Naturiol (electronig yn unig) | 1 |

## Rhestr ddosbarthu (eraill)

| | |
|---|---|
| Yr holl awdurdodau arfordirol lleol yng Nghymru | 16 |
| Croeso Cymru | 1 |

## Dyfyniad a argymhellir ar gyfer y gyfrol hon:

S. McDonough ac N. Roche 2016. Arolwg o Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru 2015 ac Effaith Economaidd Cerdded Arfordirol yng Nghymru 2014. Adroddiad Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru Rhif 171, 80tt, Cyfoeth Naturiol Cymru, Caerdydd.

# Arolwg o Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru 2015
# Effaith Economaidd Cerdded Arfordirol yng Nghymru 2014

beaufortresearch

Beaufort Research Ltd
2 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG

Cyswllt: Sarah McDonough
E-bost: sarah@beaufortresearch.co.uk
Ffôn: 02920 376742

WELSH ECONOMY RESEARCH UNIT
Yr Uned Ymchwil i Economi Cymru

Ysgol Fusnes Caerdydd
Colum Drive
Caerdydd
CF10 3EU

Cyswllt: Neil Roche
E-bost: rochend1@cf.ac.uk
Ffôn: 02920 876648

## Cynnwys Tudalen

**Crynodeb gweithredol ........................................................ 1**
Dadansoddiad o Arolwg Ymwelwyr 2015 ........................................................ 1
Effaith Economaidd Cerdded Arfordirol yng Nghymru 2014 ........................................................ 4

**ADRAN A: DADANSODDIAD O AROLWG YMWELWYR 2015 5**
1. Cyflwyniad ac amcanion ........................................................ 5
2. Methodoleg ........................................................ .6
3. Prif ganfyddiadau'r Arolwg Ymwelwyr ........................................................ 10

3.1 Proffil ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru ........................................................ 10
*3.1.1 Proffil rhyw........................................................10*
*3.1.2 Proffil oedran ........................................................11*
*3.1.3 Proffil economaidd-gymdeithasol........................................................ 13*
*3.1.4 Cyfansoddiad grwpiau ........................................................15*
*3.1.5 Ardal breswylio ……………………………………………………..... 18*
*3.1.6 Symudedd ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru........................................................ 21*

3.2 Ymwybyddiaeth o Lwybr Arfordir Cymru ........................................................ 23
*3.2.1 Ymwybyddiaeth bod Llwybr Arfordir Cymru wedi'i gwblhau ............................ 23*
*3.2.2 Ymwybyddiaeth o'r math o lwybr ........................................................ 25*

3.3 Defnyddio Llwybr Arfordir Cymru ........................................................ 26
*3.3.1 Y mathau o drafnidiaeth a ddefnyddiwyd ........................................................ 26*
*3.3.2 Y math o daith ........................................................ 27*
*3.3.3 Y llety a ddefnyddiwyd gan ymwelwyr sy'n aros dros nos ........................................ 29*
*3.3.4 Pa mor aml mae pobl yn defnyddio Llwybr Arfordir Cymru ........................................ 31*
*3.3.5 Rhesymau dros ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru ........................................................ 33*
*3.3.6 Opsiynau eraill pe na bai rhan o Lwybr Arfordir Cymru wedi bod ar gael .................. 35*
*3.3.7 Y pellter a deithir ar hyd Llwybr Arfordir Cymru ........................................................ 37*
*3.3.8 Gwariant wrth ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru ........................................................ 39*
*3.3.9 Agweddau tuag at risg a diogelwch wrth ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru ............... 41`*

**ADRAN B: EFFAITH ECONOMAIDD CERDDED ARFORDIROL YNG NGHYMRU 2014 43**
1. Cyflwyniad ........................................................ .43
2. Diffiniadau ........................................................ . 44
3. Mesurau o effaith........................................................ 46

**ATODIADAU**
Atodiad A: Methodoleg ar gyfer amcangyfrif nifer yr ymwelwyr a oedd yn cerdded ar Lwybr Arfordir Cymru yn 2014
Atodiad B: Asesiad o'r effaith economaidd – esboniadau technegol a methodoleg
Atodiad C: Effeithiau gwariant cyfalaf ar Lwybr Arfordir Cymru
Atodiad D: Cymhariaeth o wariant pob oedolyn fesul ymweliad rhwng 2013 a 2015
Atodiad E: Effaith economaidd gwariant ymwelwyr wrth gerdded ar Lwybr Arfordir Cymru 2014
Atodiad F: Holiadur yr arolwg

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i rannu'n ddwy ran, yn amlinellu'r dadansoddiad o Arolwg o Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru 2015 ac Effaith Economaidd Cerdded Arfordirol yng Nghymru 2014.

Mae'r adran gyntaf, a ysgrifennwyd gan Beaufort Research, yn crynhoi canfyddiadau'r arolwg ymwelwyr (tudalennau 10–43). Yma mae proffil yr ymwelwyr yn cael ei archwilio, lefelau o ymwybyddiaeth o Lwybr Arfordir Cymru yn cael eu hasesu, a'r defnydd ohono'n cael ei archwilio. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2015 (96%), gyda chyfran fach yn cael eu cynnal ym mis Rhagfyr 2014 (3%) a mis Ionawr 2016 (1%).

Mae'r ail adran yn disgrifio'r gwaith a gynhaliwyd gan yr Uned Ymchwil i Economi Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd, sy'n amcangyfrif effaith economaidd gwariant ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru yn 2014 ar economi Cymru (tudalennau 44–52).

**<u>Dadansoddiad o Arolwg Ymwelwyr 2015</u>**

- Ar y cyfan, roedd dosbarthiad rhyw yr ymatebwyr yn yr ymchwil ddiweddaraf yn fwy cytbwys (gwrywod 51% o gymharu â menywod 49%) o gymharu â'r ymchwil flaenorol lle roedd tuedd fach at wrywod (gwrywod 56% o gymharu â menywod 44%). Daeth hyn â dosbarthiad rhyw yr ymatebwyr yn agosach at ddosbarthiad rhyw boblogaeth oedolion y DU (gwrywod 49% o gymharu â menywod 51%[1] – ffynhonnell: Cyfrifiad 2011), ac mae'n cynrychioli gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng proffil rhyw yr ymatebwyr yn 2015 o gymharu â 2011-13.

- Oedran cymedrig ymatebwyr a oedd yn defnyddio Llwybr Arfordir Cymru oedd 53 mlwydd oed; nid yw hyn wedi newid ers yr ymchwil yn 2011-13, ac mae'n hŷn nag oedran cymedrig y DU o 47 mlwydd oed [2] (ffynhonnell: Cyfrifiad 2011). Ymhellach, mae dosbarthiad ymatebwyr yn ôl categori oedran yn amrywio rhywfaint o broffil y DU. Er bod 31% o boblogaeth y DU rhwng 16 a 34 oed, dim ond 12% o ymatebwyr a oedd yn y categori oedran hwn. Ar ben arall y raddfa oedran, mae tua un rhan o bob tair o boblogaeth y DU dros 55 mlwydd oed (34%), tra oedd tua hanner yr ymatebwyr yn y categori oedran hwn (52%).

- Yn 2015, roedd tuedd eithaf amlwg at ddemograffig ABC1 ymhlith ymatebwyr, gyda chynrychiolaeth uwch ymhlith pobl o gategorïau AB (33%) a chategori C1 (36%), o gymharu â phroffil y DU[3] (AB 22%; C1 31%). Roedd hyn yn wir yn 2011-13 hefyd; er bod y tuedd rhywfaint yn fwy amlwg yn ystod yr ymchwil flaenorol (ABC1 72%[4] o gymharu â 69% yn 2015), gyda'r gwahaniaethau yn y proffil rhwng y ddau arolwg yn ystadegol arwyddocaol.

[1] Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU, Tabl Data QS104UK
[2] Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tablau Data DC4447EW (Lloegr a Chymru); QS103SC (yr Alban); QS103NI (Gogledd Iwerddon).
[3] Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl Data QS611UK
[4] ABC1: gweithwyr proffesiynol, rheolwyr, a swyddi nad ydynt yn swyddi gwaith llaw

- O fewn y 1,483 grŵp o ddefnyddwyr a gynhwyswyd yn ymchwil 2015, roedd 3,260 o ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru – 2,843 o oedolion a 417 o blant. Roedd pob grŵp yn cynnwys cymedr o 1.9 oedolyn, ac ymhlith y grwpiau hynny a oedd yn cynnwys plant (250), roedd cymedr o 1.7 plentyn ymhob grŵp. Roedd nifer cymedrig yr ymwelwyr ymhob grŵp yn parhau i fod yn weddol gyson â data arolwg 2011-13. At ei gilydd, roedd tua un o bob chwe grŵp o ddefnyddwyr yn cynnwys plant yn 2015 (17%), rhywfaint yn llai na ffigur 2011-13 o 19%.

- Ar y cyfan, roedd mwyafrif bach o ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru yn byw yng Nghymru (59%), er bod y gyfran hon yn amrywio yn ôl y rhan o'r llwybr roeddent yn ei defnyddio. Ymhellach, roedd trigolion Cymru yn tueddu i fyw'n agos i'r rhan o'r llwybr roeddent yn ymweld â hi.

- Tua un ymatebwr o bob deg yn unig, yn ystod y ddau arolwg, a ddywedodd fod ganddynt, neu gan rywun yn eu grŵp uniongyrchol, salwch cyfyngol (12% yn y ddau arolwg). Nid oedd gan y rhan fwyaf (88%) unrhyw broblemau symudedd.

- Mae'r lefelau o ymwybyddiaeth bod y llwybr wedi cael ei gyfuno wedi cynyddu'n sylweddol o 8% ers 2011-13 (38% i 46% yn 2015). Fodd bynnag, mae mwyafrif bach o'r ymatebwyr yn parhau i fod yn anymwybodol bod y llwybr wedi cael ei gyfuno (54%). Roedd chwarter yr ymatebwyr yn credu nad oedd Llwybr Arfordir Cymru wedi'i gyfuno ar hyn o bryd, ond y byddai yn y dyfodol (25%), tra oedd tua un o bob deg yn credu na fyddai'r llwybr byth yn cael ei gyfuno (9%). Nid oedd un o bob pump arall yn gwybod beth oedd statws y llwybr o ran cael ei gyfuno o gwbl (20%).

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cerdded ar hyd Llwybr Arfordir Cymru pan gyfwelwyd â nhw yn 2015 (93%); mae hwn bron â bod yr un ffigur â 2011-13 (94%). Roedd llai nag un o bob deg yn beicio (6%), er bod y ffigur hwn wedi cynyddu'n sylweddol ers 2011-13 (4%). Roedd lleiafrif bach iawn yn defnyddio dulliau trafnidiaeth eraill (e.e. marchogaeth, cerbyd modur, cerbyd cymorth/anabledd).

- Roedd y gyfran gyffredinol o ymatebwyr a oedd yn ymwelwyr undydd neu ymwelwyr dros nos (rhai a oedd yn aros dros nos neu'n aros fel rhan o wyliau hwy) yn 2011-13 a 2015 yr un peth; roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwelwyr undydd (61%), tra oedd tua phedwar o bob deg yn ymwelwyr a oedd yn aros dros nos (39%); roedd ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yn fwyaf tebygol o dreulio eu harhosiad mewn gwersyllfa/maes carafanau, neu mewn llety hunanddarpar (25% yr un).

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn 2015 wedi ymweld â Llwybr Arfordir Cymru o'r blaen (93% o gymharu â 91% yn 2011-13); roedd pobl a oedd yn ymweld am y tro cyntaf yn cyfrif am 7% yn unig o'r ymatebwyr yn 2015. Er bod y ffigurau'n weddol gyson â'r canfyddiadau yn 2011-13, mae dosbarthiad y sgoriau'n wahanol iawn yn ymchwil 2015 o gymharu â'r arolwg blaenorol.

- Ar y cyfan, roedd pobl yn tueddu i ymweld â Llwybr Arfordir Cymru yn weddol reolaidd, gyda bron i ddwy ran o bob tair yn defnyddio'r llwybr unwaith y mis neu fwy (64% yn 2015 o gymharu â 66% yn 2011-13).

- Gan adlewyrchu canfyddiadau blaenorol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cyfwelwyd â nhw'n defnyddio’r llwybr fel rhan o daith hamdden o'u cartref (60% o gymharu â 58%

yn 2011-13). Roedd 38% pellach yn defnyddio'r llwybr ar gyfer taith hamdden fel rhan o seibiant hwy neu wyliau yng Nghymru; nid yw'r ffigur hwn wedi newid ers 2011-13. Roedd y gyfran o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r llwybr i deithio i'w gweithle arferol ac yn ôl, neu i wneud teithiau gwaith anarferol, yn fach iawn (2% ac 1% yn ôl eu trefn). Mae dosbarthiad y sgoriau yn 2015 yn wahanol iawn i 2011-13.

- Pan ofynnwyd iddynt beth byddent wedi'i wneud pe na baent wedi llwyddo i gael mynediad at y rhan benodol honno o Lwybr Arfordir Cymru, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt y byddent wedi ceisio ffordd arall ar gyfer cerdded, beicio neu farchogaeth (77%, cryn dipyn yn uwch na'r 73% yn 2011-13). Byddai ychydig o dan un o bob ugain (4%) wedi gwneud y daith trwy ddefnyddio cerbyd modur, tra dywedodd cyfran ychydig yn uwch na fyddent wedi gwneud y daith o gwbl (7%).

- Y pellter cymedrig o'r llwybr roedd ymatebwyr yn ei ddefnyddio oedd 2.9 milltir; mae hyn cryn dipyn yn uwch na'r pellter o 1.8 milltir yn 2011-13, er ei bod yn rhaid nodi nad oedd teithiau dychwelyd yn cael eu cyfrif yn y cyfrifiadau yn yr ymchwil flaenorol (gan nad oedd y data hwn wedi'i gasglu). Cafwyd y milltiredd uchaf ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r llwybr ar arfordir y gogledd (cymedr o 4.3 milltir), a'r milltiredd isaf ymhlith ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r llwybr yn Ynys Môn (cymedr o 1.9 milltir).

- Yn yr arolwg diweddaraf, roedd ymatebwyr a'u grŵp uniongyrchol yn bwriadu gwario cyfartaledd o £4.63 ar y rhan honno o'r llwybr (yn sylweddol uwch na'r £3.52 yn 2011-13). Gwariwyd y swm cymedrig mwyaf ar hyd rhannau o'r llwybr ym Mae Caerfyrddin a Gŵyr (£6.90) a'r swm isaf ar hyd y llwybr ar arfordir y gogledd (£2.19). O ran gwariant ar yr holl daith (ac eithrio llety), roedd ymatebwyr a'u grŵp uniongyrchol yn bwriadu gwario cymedr o £15.18, ychydig yn is na ffigur 2011-13 o £15.62. Roedd y gwariant cymedrig uchaf ar gyfer pob taith yn Sir Benfro (£27.34), a'r isaf ar arfordir y gogledd (£6.99). Gwariwyd cymedr o £74.11 y nos ar lety (i lawr o £76.42 yn 2011-13); cododd hyn i £85.37 yn Ynys Môn a gostyngodd i £52.63 ar arfordir y gogledd.

- Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn gwneud rhagofalon pan oeddent yn defnyddio Llwybr Arfordir Cymru (65%); roedd tua chwarter yn gwneud rhai rhagofalon a oedd hefyd yn hapus byw gyda rhywfaint o risg (27%), ond roedd cyfran uwch o 38% yn gwneud yr holl ragofalon a oedd eu hangen i deimlo'n ddiogel wrth gerdded. Nid oedd un ymatebwr o bob tri yn gwneud unrhyw ragofalon wrth ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru (35%); nid oedd y rhan fwyaf o'r rhain yn credu bod defnyddio'r llwybr yn peri unrhyw risg (26%), er i rai ddweud eu bod yn hapus byw gyda rhywfaint o risg heb wneud unrhyw ragofalon (9%).

## Effaith Economaidd Cerdded Arfordirol yng Nghymru 2014

- Mae effeithiau economaidd y gellir eu priodoli i gerdded arfordirol yng Nghymru yn digwydd i raddau helaeth i ffwrdd o'r arfordir ei hun (e.e. arian yn cael ei wario mewn siopau ac ar lety ac ati mewn trefi lleol). O'r herwydd, roedd y dadansoddiad yn edrych ar yr holl wariant a oedd yn gysylltiedig â'r daith, boed hynny ar yr arfordir neu i ffwrdd ohono.

- Mae cyfran uchel o deithiau cerdded ar arfordir Cymru yn cynnwys cerdded ar Lwybr Arfordir Cymru ei hun.

- Amcangyfrifir bod 43.447 miliwn o ymweliadau ag arfordir Cymru ar gyfer cerdded yn 2014; roedd 37.877 miliwn o'r rhain yn oedolion (y rhai sy'n 16 mlwydd oed neu'n hŷn).

- Amcangyfrifir bod oedolion a oedd yn ymweld ar y teithiau hyn wedi gwario £547 miliwn.

- Y gwariant net (ar ôl caniatáu am golledion megis mewnforion a threth ar wariant gros) gan oedolion a oedd yn ymweld ar y teithiau hyn oedd £401 miliwn.

- Cafodd effeithiau anuniongyrchol y gwariant net eu hasesu trwy ddefnyddio modelu mewnbwn–allbwn; cafodd effeithiau economaidd cyffredinol gwariant y gellir eu priodoli i ymwelwyr yn cerdded ar arfordir Cymru yn 2014 eu hasesu wedyn fel a ganlyn:
    - £540.9 miliwn o fewnbwn ychwanegol i economi Cymru
    - £271.4 miliwn o werth gros wedi ei ychwanegu
    - Tua 12,320 o swyddi cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn.

- Cafodd effeithiau cyffredinol y rhan o arfordir Cymru a ariennir gan yr UE eu hasesu fel a ganlyn:
    - £493.2 miliwn o allbwn ychwanegol yn economi Cymru
    - £247.8 miliwn o werth gros wedi ei ychwanegu
    - 11,270 o swyddi cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn.

- Cafodd effeithiau cyffredinol gwariant ymwelwyr â'r rhan o arfordir Cymru nas ariennir gan yr UE eu hasesu fel a ganlyn:
    - £47.7 miliwn o allbwn ychwanegol yn economi Cymru
    - £23.6 miliwn o werth gros wedi ei ychwanegu
    - 1,050 o swyddi cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn.

- Mae gwariant y gellir ei briodoli i ymwelwyr yn cerdded ar arfordir Cymru yn creu effeithiau economaidd ar draws sectorau gwahanol o economi Cymru, nid y sectorau sy'n ymdrin â thwristiaeth yn draddodiadol yn unig, megis llety. Yn 2014, cafodd amcangyfrif o £31 miliwn o werth ychwanegol gros yn y sector trafnidiaeth a chyfathrebu, gyda swm tebyg yn cael ei ychwanegu yn y sector gwasanaethau ariannol yn economi Cymru.

# ADRAN A: DADANSODDIAD O'R AROLWG YMWELWYR

## 1. Cyflwyniad ac amcanion

Cafodd Llwybr Arfordir Cymru ei agor yn swyddogol ym mis Mai 2012, ac mae'n estyn am 870 o filltiroedd ar arfordir Cymru o Sir Fynwy yn y de i Sir y Fflint yn y gogledd. Gan fod twristiaeth yn elfen allweddol o economi Cymru, mae Llwybr Arfordir Cymru yn ased economaidd pwysig iawn. Fel rhan o'i gyfrifoldeb am reoli Llwybr Arfordir Cymru, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru am fonitro a gwerthuso'r defnydd o'r llwybr yn y rhannau a ariennir gan yr UE a'r rhannau nas ariennir gan yr UE.

Cynhaliwyd gwaith monitro a gwerthuso Llwybr Arfordir Cymru yn flaenorol yn 2011-13. Mae'r adroddiad canlynol yn amlinellu prif ganfyddiadau'r arolwg diweddaraf (y cyfeiriwyd ato fel arolwg 2015) a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Ionawr 2016, ac mae'n cymharu canfyddiadau'r ddau gyfnod o ymchwil.

Roedd amcanion penodol y rhaglen monitro a gwerthuso fel a ganlyn:

- Gweithredu fframwaith monitro a gwerthuso E4G
- Coladu gwybodaeth monitro a gwerthuso
- Gwneud y diwygiadau angenrheidiol i'r gronfa ddata monitro a gwerthuso
- Rhoi cyngor ynglŷn â chynnal arolwg ymwelwyr a llunio’r arolwg hwnnw
- Datblygu algorithmau i asesu effaith safleoedd unigol lle nad oes gwybodaeth am ymwelwyr ar gael
- Paratoi adroddiad monitro a gwerthuso blynyddol.

Dyfarnwyd y contract i gyflawni’r rhaglen monitro a gwerthuso i Beaufort Research, mewn partneriaeth ag Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd. Roedd Beaufort Research yn gyfrifol am goladu data cynradd trwy arolwg ymwelwyr, tra oedd Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd yn gyfrifol am fodelu'r data o'r arolwg ymwelwyr, ynghyd â data a roddwyd yn uniongyrchol gan Gyfoeth Naturiol Cymru, o safbwynt economaidd.

## 2. Methodoleg

Roedd y cwmpas ymchwil ar gyfer yr arolwg ymwelwyr yn cynnwys y rhai a oedd yn 16 mlwydd oed neu’n hŷn a oedd yn defnyddio unrhyw ran o 870 o filltiroedd Llwybr Arfordir Cymru, boed hynny'n cerdded, beicio, marchogaeth neu ddefnyddio cerbydau modur bach (e.e. sgwteri anabledd). Y rhai a gafodd eu heithrio o'r arolwg oedd unigolion a oedd yn gysylltiedig â Llwybr yr Arfordir megis cyflogeion sefydliadau sy'n gyfrifol am osod a chynnal a chadw'r llwybr.

Cynhaliwyd cyfanswm o 1,483 o gyfweliadau yn ystod y cyfnod gwaith maes rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Ionawr 2016. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2015 (96%), gyda chyfran fach yn cael eu cynnal ym mis Rhagfyr 2014 (3%) a mis Ionawr 2016 (1%).

Defnyddiwyd dull samplu anghymesur ar gyfer yr arolwg; mae 87% o'r llwybr mewn ardaloedd a ariennir gan yr UE ac 13% mewn ardaloedd nas ariennir gan yr UE. Mae'r tabl isod yn dangos sut y cafodd dibynadwyedd ystadegol y data ar gyfer ardaloedd nas ariennir gan yr UE ei gynyddu trwy ddefnyddio dull anghymesur, gan gynnal 20% o'r cyfweliadau mewn ardaloedd nas ariennir gan yr UE, yn hytrach nag 13% yn unig:

| **Ardal** | **Canran o'r llwybr** | **Nifer y cyfweliadau os ydynt yn gymesur** | **Lefel yr hyder ystadegol**[5] yn y data a gasglwyd **(os yw'n gymesur)** | **Gwir nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd** | **Lefel yr hyder ystadegol yn y data a gasglwyd mewn gwirionedd** |
|---|---|---|---|---|---|
| A ariennir gan yr UE | 87 | 1,290 | +/- 2.7% | 1,191 | +/- 2.8% |
| Nas ariennir gan yr UE | 13 | 193 | +/- 7.1% | 292 | +/- 5.7% |

Yn ystod y cam dadansoddi, er mwyn atal gorgynrychiolaeth gan ymwelwyr â'r llwybr mewn ardaloedd nas ariennir gan yr UE, cafodd y data ei bwysoli i ddod â chyfran gyffredinol y cyfweliadau a gynhaliwyd mewn ardaloedd nas ariennir gan yr UE yn unol â gwir gyfran y llwybr sydd yn y mannau hyn (h.y. 20% o'r sampl i 13% o'r sampl).

Yn ogystal â phroffil y mannau a ariennir/nas ariennir gan yr UE, dyluniwyd y sampl hefyd i adlewyrchu amrywiaeth y llwybr o ran y canlynol:

[5]Lefel hyder: y gyfran y gallai ffigurau amrywio o'r rhai yr adroddwyd amdanynt pan fyddant yn cael eu defnyddio ar gyfer POB ymwelydd â'r llwybr (h.y. cyfanswm yr ymwelwyr) yn hytrach na'r sampl y cyfwelwyd â nhw yn unig. Mae'r lefel hyder yn cael ei phennu gan gyfanswm y cyfweliadau a gynhaliwyd. Mae'r ffigurau uchod yn gysylltiedig â'r amrywiaeth ar lefel ymateb o 50%. Er enghraifft, pe bai 50% o **sampl o 1,290** yn ateb 'ie' i gwestiwn, gallwn fod yn 95% yn sicr bod rhwng 47.3% a 52.7% o'r holl boblogaeth o'r un farn (h.y. +/-2.7%). Fodd bynnag, pe bai 50% o sampl o 193 yn ateb 'ie' i gwestiwn, gallwn fod yn 95% yn sicr bod rhwng 42.9% a 57.1% o'r boblogaeth o'r un farn (h.y. +/-7.1%).

- Lleoliadau gwledig/trefol
- Awdurdodau lleol
- Rhannau cyfredol/newydd o'r llwybrau a'r rhai sydd wedi eu gwella
- Cyfnodau prysur/tawel (e.e. penwythnosau/dyddiau'r wythnos, tymor prysur/tymor tawel).

Defnyddiwyd cyfanswm o 56 safle ar hyd Llwybr Arfordir Cymru ar gyfer cyfweliadau yn ystod yr ymchwil, a dewiswyd y rhain o ganlyniad i argymhellion gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yr awdurdodau lleol unigol a Beaufort Research.

Er mwyn sicrhau bod sampl wirioneddol gynrychiadol o ymwelwyr â Llwybr yr Arfordir yn cael eu cyfweld, ac osgoi unrhyw duedd, cymerwyd y camau canlynol:

- Pennwyd meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cyfweliadau fel a ganlyn:
  - **Rhaid bod** yr ymatebwyr yn oedolion 16 mlwydd oed neu'n hŷn
  - **Rhaid eu bod** yn defnyddio Llwybr Arfordir Cymru ar adeg y cyfweliad
  - **Rhaid nad oeddent** yn cael eu cyflogi gan unrhyw sefydliadau sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru.

- Defnyddiwyd rheol yr 'unigolyn nesaf, hynny yw, roedd y cyfwelydd yn dewis ymatebwyr ar sail yr unigolyn nesaf i fynd heibio ar ôl cwblhau'r cyfweliad blaenorol.

- Hefyd, ni chyfwelid â mwy nag un unigolyn ymhob grŵp ac, yn achos grwpiau mawr, defnyddiwyd rheol y 'pen-blwydd nesaf: hynny yw, cyfwelid â'r unigolyn â'r pen-blwydd nesaf.  Roedd hyn yn goresgyn unrhyw duedd bosibl yn y sampl ac yn sicrhau ei bod mor gynrychiadol ag y bo modd.

- Ni osodwyd terfynau ar niferoedd, i ganiatáu i broffil ymwelwyr â Llwybr Arfordir Cymru ddod i'r amlwg yn naturiol.

Cafodd y cyfwelwyr a aseiniwyd i'r prosiect eu dewis ar sail eu gallu i gyrraedd y safleoedd (mae rhai ohonynt yn anghysbell) a'u gallu i ddarllen mapiau (rhan hanfodol o'r arolwg, gan fod nodi taith ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru yn allweddol bwysig).  Rhoddwyd sesiwn briffio gynhwysfawr i'r cyfwelwyr ynglŷn â Llwybr Arfordir Cymru, a map manwl er mwyn iddynt gyrraedd union fan eu cyfweliadau ar y llwybr ei hun.  Roedd dadansoddiad risg wedi cael ei gynnal ar bob safle yn 2011-13, er mwyn sicrhau diogelwch y cyfwelydd/wyr ar bob adeg.

Roedd y safleoedd a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil fel a ganlyn:

| **SIR Y FFLINT** | **CEREDIGION** | **CASTELL-NEDD PORT TALBOT** |
|---|---|---|
| Traeth Talacre | Aberporth | Glan y môr Aberafan |
| Doc Maes-glas | Craig-lais | The Quays, Baglan |
| Blaendraeth y Fflint | Penbryn | |
| | Craig yr Adar ar bwys Ceinewydd | |
| **SIR DDINBYCH** | Llan-non | **PEN-Y-BONT AR OGWR** |
| Y Rhyl (ar bwys y Canolfan Croeso) | Aberteifi | Comin Lock, Porthcawl |
| Prestatyn (ar bwys Canolfan Nova) | Cwmtydu | Bae Trecco |
| | | |
| | **SIR BENFRO** | **BRO MORGANNWG** |
| **CONWY** | Maenorbŷr | Trwyn Larnog |
| Bae Cinmel | Solfach | Parc Gwledig Porthceri |
| Rhiwledyn | Wiseman's Bridge[6] | Cwm Col-huw, Llanilltud Fawr |
| Traeth Gorllewinol Llandudno | Dinas | Dwnrhefn, Southerndown |
| Penmaenmawr | Niwgwl | Afon Ogwr |
| Llwybr Jiwbilî, Penmaenmawr | **SIR GAERFYRDDIN** | |
| | Pentre Pentywyn | **CAERDYDD** |
| Morfa Madryn | Tre Talacharn | Yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd |
| | Cydweli | |
| **YNYS MÔN** | Llwybr Melin Pen-bre | Parc Tredelerch |
| Ynys Lawd | | |
| Moelfre | **ABERTAWE** | **CASNEWYDD** |
| Biwmares | Bae Langland | Trwyn Allteuryn |
| | Bae Caswell | Goleudy Llansanffraid Gwynllŵg |
| **GWYNEDD** | Rhosili | |
| Plas Glyn y Weddw | Hills Burrows | Gwlyptiroedd Casnewydd |
| Porth Oer | Southgate | |
| Tal-y-bont | | **SIR FYNWY** |
| Pont Coronation | | Black Rock |
| Gerddi Botaneg Treborth | | Cas-gwent |

Cynhaliwyd holiadur bach yn Saesneg neu Gymraeg (pa un bynnag roedd yr ymatebwr yn ei ddewis); er bod 14% o'r ymatebwyr yn sampl yr arolwg yn siarad Cymraeg, 2% yn unig a ddewisodd gynnal y cyfweliad yn Gymraeg. Dyluniwyd yr holiadur i gasglu gwybodaeth am broffiliau ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru, yn ogystal â gwybodaeth am hyd y daith ar y llwybr a faint a wariwyd ar y dydd.

Dychwelwyd holiaduron a gwblhawyd at Beaufort Research at ddibenion gwirio ansawdd a mewnbynnu data.

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolwg ymwelwyr rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Ionawr 2016.

[6] Fe'i hadwaenid fel Dram gynt

Cafodd y data ei ddadansoddi yn ôl grwpiau croesgyfeirio allweddol, gan gynnwys grwpiau demograffig cymdeithasol. Seilir y rhain ar alwedigaeth pennaeth y cartref (h.y. y prif enillwr yn y cartref). Mae'r diffiniad canlynol yn amlinellu'r grwpiau a ddefnyddiwyd a'r mathau o alwedigaeth a gynhwysir ym mhob un:

| | |
|---|---|
| AB | Gweithwyr proffesiynol, uwch-reolwyr, rheolwyr canolig o sefydliadau mawr, prif reolwyr busnesau bach |
| C1 | Is-reolwyr, perchnogion sefydliadau bach a deiliaid pob swydd arall nad yw'n swydd gwaith llaw |
| C2 | Gweithwyr llaw medrus, gweithwyr llaw sydd â chyfrifoldeb am bobl eraill |
| DE | Gweithwyr llaw hanner medrus a gweithwyr llaw nad ydynt yn fedrus, prentisiaid a hyfforddeion i weithwyr medrus, y rhai sy'n dibynnu ar fudd-daliadau'r wlad, gweithwyr achlysurol a'r rhai nad oes ganddynt incwm rheolaidd. |

Mae data hefyd wedi cael ei drefnu yn ôl rhanbarth; noder bod dosbarthiadau rhanbarthol rhannau o Lwybr Arfordir Cymru wedi cael eu newid ers arolwg 2015, i fod yn fwy cydlynus o ran nodweddion y llwybr, yn hytrach na'u seilio ar leoliad daearyddol yn unig.

- Arfordir y Gogledd: *Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy*
- Ynys Môn
- Gwynedd
- Ceredigion
- Sir Benfro
- Bae Caerfyrddin a Gŵyr: *Sir Gaerfyrddin ac Abertawe*
- Arfordir y De: *Castell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg, Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy.*

Trwy brif destun yr adroddiad, mae gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol wedi cael eu nodi yn y siartiau. Mae hyn yn nodi lle mae'r newidiadau o ganlyniad i wir newid, fel y'i mesurir gan brofion ystadegol, yn hytrach na newidiadau ar hap. Bydd y ffigurau a amlygir yn y siartiau'n dangos lle mae'r data'n sylweddol wahanol trwy gymharu'r canlyniadau canlynol:

- Gwahaniaethau rhwng arolwg 2011-13 ac arolwg 2015
- Gwahaniaethau o fewn canlyniadau 2015, yn seiliedig ar gymharu data is-grwpiau.

# 3. Prif ganfyddiadau'r Arolwg Ymwelwyr


## 3.1 Proffil ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru

### *3.1.1 Proffil rhyw*

Ar y cyfan, roedd dosbarthiad rhyw yr ymatebwyr yn yr ymchwil ddiweddaraf yn fwy cytbwys (gwrywod 51% o gymharu â menywod 49%) o gymharu â'r ymchwil flaenorol, lle roedd tuedd fach at wrywod (gwrywod 56% o gymharu â menywod 44%). Daeth hyn â dosbarthiad rhyw ymatebwyr yn agosach at ddosbarthiad rhyw poblogaeth oedolion y DU (gwrywod 49% o gymharu â menywod 51%[7] – ffynhonnell: Cyfrifiad 2011), ac mae'n cynrychioli gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng proffil rhyw ymatebwyr yn 2015 o gymharu â 2011-13.

Fodd bynnag, roedd tuedd gyffredinol at ganran uwch o wrywod o gymharu â menywod ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol y llwybr; roedd hyn yn fwyaf amlwg ar arfordir y gogledd (gwrywod 53% o gymharu â menywod 47%). Yr unig ran o'r llwybr lle roedd y duedd o ran rhyw yn symud at ragor o fenywod na gwrywod oedd Ceredigion (gwrywod 47% o gymharu â menywod 53%) – gweler Ffigur 1 isod.

**Ffig. 1: Dosbarthiad ymatebwyr yn ôl rhyw ar gyfer pob rhanbarth y llwybr %**





Ffynhonnell: Cwestiwn am ddosbarthiad rhyw – pob ymatebwr
Mae seiliau'n amrywio (mewn cromfachau)

[7] Cyfrifiad y DU, Tabl Data QS104UK

Roedd tuedd fach at ragor o wrywod na menywod yn rhannau trefol y llwybr (gwrywod 53% o gymharu â menywod 47%). Ymhellach, roedd cyfran uwch o wrywod yn rhannau Llwybr Arfordir Cymru nas ariennir gan yr UE (gwrywod 55% o gymharu â menywod 45%). Mewn ardaloedd a ariennir gan yr UE, roedd dosbarthiad yr ymatebwyr yn ôl rhyw yn gyfatebol i'r proffil cyffredinol – gweler Ffigur 2 isod.

**Ffig. 2: Dosbarthiad rhyw ymatebwyr yn ôl mannau a ariennir gan yr UE/nas ariennir gan yr UE a lleoliadau trefol/gwledig %**




Ffynhonnell: Cwestiwn am ddosbarthiad rhyw – pob ymatebwr
Mae seiliau'n amrywio (mewn cromfachau)

Mae dadansoddi pellach o'r data ynglŷn â rhyw yn dangos bod beicwyr ar y llwybr yn fwy tebygol o lawer i fod yn wrywod (70%) o gymharu â menywod (30%), lle mae proffil cerddwyr wedi'i rannu'n 50/50. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr hynny 65 mlwydd oed neu'n hŷn yn bennaf yn wrywod (62%); roedd y dosbarthiad o ran rhyw ar gyfer ymatebwyr iau na hyn yn fwy cytbwys.

O ran cyfansoddiad y grwpiau, ymhlith y grwpiau o ddefnyddwyr a oedd yn cynnwys plant, roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o fod yn fenywod (59%) na gwrywod (41%).


### *3.1.2 Proffil oedran*

Yn yr ymchwil ddiweddaraf, oedran cymedrig ymatebwyr a oedd yn defnyddio Llwybr Arfordir Cymru oedd 53 mlwydd oed; nid yw'r ffigur hwn wedi newid ers ymchwil 2011-13, ond mae'n hŷn nag oedran cymedrig y DU o 47 mlwydd oed[8]. Ymhellach, mae dosbarthiad ymatebwyr yn ôl categorïau oedran yn amrywio rhywfaint o broffil y DU.

[8] Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, tablau data DC4447EW (Lloegr a Chymru); QS103SC (yr Alban); QS103NI (Gogledd Iwerddon).

Er bod 31% o boblogaeth y DU rhwng 16 a 34 oed, yn 2015 dim ond 12% o ymatebwyr a oedd yn y categori oedran hwn (13% yn 2011-13). Ar ben arall y raddfa oedran, mae tua un rhan o bob tair o boblogaeth y DU dros 55 mlwydd oed (34%), tra oedd dros hanner yr ymatebwyr yn y categori hwn (52% 2015; 48% 2011-13).


Roedd oedran ymatebwyr yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol y llwybr. Er enghraifft, yng Ngheredigion, roedd cyfran uwch o ymatebwyr rhwng 16 a 34 mlwydd oed (19%), tra oedd y ffigur ar gyfer Gwynedd ychydig o dan 8%. Ymhellach, er bod pobl dros 55 mlwydd oed yn cyfrif am 55% o ymatebwyr yng Ngheredigion, y ffigur ar gyfer Bae Caerfyrddin a Gŵyr oedd 39% – gweler Ffigur 3 isod.




Prin oedd gwahaniaeth yr oedran rhwng ymatebwyr mewn mannau a ariennir gan yr UE/nas ariennir gan yr UE, er bod ychydig mwy o ymatebwyr iau rhwng 16 a 34 mlwydd oed mewn mannau nas ariennir gan yr UE (15%) o gymharu â mannau a ariennir gan yr UE (12%).

Mewn mannau trefol Llwybr Arfordir Cymru, roedd ymatebwyr yn tueddu i fod ychydig yn hŷn o gymharu â mannau gwledig. Er enghraifft, roedd rhagor o ymatebwyr dros 55 mlwydd oed ym mannau trefol y llwybr (55% o gymharu â 50% mewn mannau gwledig); i'r gwrthwyneb, roedd ychydig llai o ymatebwyr rhwng 16 a 34 mlwydd oed ym mannau trefol y llwybr (11%) nag mewn mannau gwledig (13%) – gweler Ffigur 4 isod.

**Ffig.4: Dosbarthiad oedran ymatebwyr yn ôl mannau a ariennir gan yr UE/nas ariennir gan yr UE a lleoliadau trefol/gwledig %**




Fel y gellir ei ddisgwyl, roedd ymatebwyr dros 55 mlwydd oed yn fwy tebygol o fod mewn grwpiau o ymwelwyr a oedd yn cynnwys oedolion yn unig (58%) nag mewn grwpiau a oedd yn cynnwys plant (20%); yr ymatebwyr mewn grwpiau a oedd yn cynnwys cymysgedd o oedolion a phlant oedd y mwyaf tebygol o fod rhwng 35 a 44 mlwydd oed (39%).

Roedd ymwelwyr undydd hefyd yn fwy tebygol o fod yn 55 mlwydd oed neu'n hŷn (54%) nag ymwelwyr sy'n aros dros nos (48%).

### *3.1.3 Proffil economaidd-gymdeithasol*

Yn 2015, roedd tuedd eithaf amlwg at ddemograffig ABC1 ymhlith ymatebwyr, gyda chynrychiolaeth uwch ymhlith pobl o gategorïau AB (33%) a chategori C1 (36%), o gymharu â phroffil y DU[9] (22% AB; 31% C1). Roedd hyn yn wir yn 2011-13 hefyd, er bod y duedd rhywfaint yn fwy amlwg yn yr ymchwil flaenorol (72% ABC1[10] o gymharu â 69% yn 2015), gyda gwahaniaethau yn y proffil rhwng y ddau arolwg yn ystadegol arwyddocaol.


Roedd proffil economaidd-gymdeithasol ymatebwyr yn amrywio'n sylweddol yn ôl lleoliad y llwybr, er bod llawer o ymatebwyr yng ngrŵp ABC1 ym mhob lleoliad; mae ardaloedd lle mae'r proffil economaidd-gymdeithasol yn

[9] Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl Data QS611UK
[10] ABC1: gweithwyr proffesiynol, rheolwyr a swyddi nad ydynt yn swyddi gwaith llaw.

amrywio'n sylweddol i'r proffil cyffredinol wedi cael eu hamlygu â lliw coch yn Ffigur 5 isod.


Yn Ynys Môn a Bae Caerfyrddin a Gŵyr, roedd dau o bob pum ymatebwr yng ngrŵp AB (43% a 41% yn ôl eu trefn), tra oedd y gyfran hon wedi gostwng i un yn unig ym mhob pump (18%) yng Ngheredigion.

Roedd cynrychiolaeth o grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE[11] ar ei huchaf ar rannau o'r llwybr ar hyd arfordir y gogledd (41%) a Sir Benfro (35%).




Roedd tuedd uwch o lawer at ymatebwyr yn nosbarthiad ABC1 mewn mannau a ariennir gan yr UE (71%) o gymharu â mannau nas ariennir gan yr UE (58%); ymhellach, roedd cyfran uwch o ymatebwyr yng ngrŵp ABC1 ym mannau gwledig y llwybr (72%) o gymharu â mannau trefol (61%). Lle mae dosbarthiad y sgoriau'n amrywio'n sylweddol o fesur cyffredinol 2015, mae'r rhain wedi cael eu hamlygu â lliw coch – gweler Ffigur 6 isod.

[11] C2DE: gweithwyr llaw medrus a rhai nad ydynt yn fedrus, a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau.




Roedd grwpiau demograffig eraill a gasglwyd gan yr arolwg yn cynnwys statws gweithio ac ethnigrwydd.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cyfwelwyd â nhw mewn gwaith (50% yn llawn amser; 8% yn rhan amser), roedd un o bob tri wedi ymddeol (33%). Dim ond 2% a oedd mewn addysg lawn amser.

Proffil ethnig y rhan fwyaf o ymatebwyr oedd Prydeinwyr Gwyn/Cymry (94%); disgrifiodd 4% pellach eu hethnigrwydd fel 'Gwyn Arall', tra oedd 1% yn unig yn aelod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig[12].

### *3.1.4 Cyfansoddiad grwpiau*

Mae Tabl 1 isod yn rhoi dadansoddiad manwl o wir nifer ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru a gynhwyswyd yn y ddau gyfnod o ymchwil. Mae'r ffigurau wedi cael eu cyfrifo trwy graffu ar nifer y bobl ym mhob grŵp o ymwelwyr, yn hytrach na chanolbwyntio dim ond ar yr ymatebwr sy'n cymryd rhan yn y cyfweliad; mae'r data wedi cael ei bwysoli (gweler tudalen 6 am esboniad o'r fethodoleg bwysoli).

O fewn y 1,483 grŵp o ddefnyddwyr a gynhwyswyd yn ymchwil 2015, roedd 3,260 o ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru - 2,843 o oedolion a 417 o blant. Roedd pob grŵp yn cynnwys cymedr o 1.9 oedolyn, ac ymhlith y grwpiau

12

hynny a oedd yn cynnwys plant (250), cymedr o 1.7 plentyn ymhob grŵp. Roedd y nifer cymedrig o ymwelwyr ym mhob grŵp yn parhau i fod yn weddol gyson â data arolwg 2011-13.

Roedd grwpiau o ddefnyddwyr yn rhannau'r llwybr yn Ynys Môn a Bae Caerfyrddin a Gŵyr yn tueddu i fod â'r nifer cymedrig mwyaf o oedolion ym mhob grŵp (2.2 a 2.1 yn ôl eu trefn). Ar hyd rhannau'r llwybr ar arfordir y gogledd ac arfordir y de, roedd grwpiau o ddefnyddwyr yn cynnwys nifer cymedrig o oedolion a oedd rhywfaint yn is (1.7 ar gyfer pob ardal). Roedd nifer cymedrig y plant ym mhob grŵp ar ei uchaf yng Ngwynedd (1.9) ac ar ei isaf ar arfordir y gogledd (1.5).

Roedd grwpiau'n tueddu i fod ychydig yn fwy mewn mannau gwledig (2.0 oedolyn, 1.7 plentyn) nag mewn mannau trefol y llwybr (1.7 oedolyn; 1.7 plentyn) - gweler Tabl 1 isod.

| TABL 1: Cyfanswm nifer ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru (ymatebwyr yn ogystal ag aelodau eraill o'r grŵp, gan gynnwys plant) | Cyfanswm y grwpiau o ddefnyddwyr | Cyfanswm y grwpiau â phlant | Cyfanswm yr ymwelwyr yn y grwpiau (oedolion a phlant) | Cyfanswm yr oedolion | Cyfanswm y plant (0-15 mlwydd) | Nifer cymedrig yr oedolion | Nifer cymedrig y plant (pob grŵp o ymwelwyr) | Nifer cymedrig y plant (grwpiau o ymwelwyr gan gynnwys plant) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm 2011-13** | 1,566 | 290 | 3,562 | 3,063 | 499 | 2.0 | 0.3 | 1.7 |
| **Cyfanswm 2015** | 1,483 | 250 | 3,260 | 2,843 | 417 | 1.9 | 0.3 | 1.7 |
| | | | | | | | | |
| **Arfordir y Gogledd** | 340 | 47 | 663 | 591 | 72 | 1.7 | 0.2 | 1.5 |
| **Ynys Môn** | 238 | 42 | 590 | 521 | 69 | 2.2 | 0.3 | 1.6 |
| **Gwynedd** | 138 | 24 | 307 | 262 | 45 | 1.9 | 0.3 | 1.9 |
| **Ceredigion** | 103 | 14 | 233 | 208 | 25 | 2.0 | 0.2 | 1.8 |
| **Sir Benfro** | 164 | 30 | 362 | 314 | 48 | 1.9 | 0.3 | 1.6 |
| **Bae Caerfyrddin a Gŵyr** | 240 | 50 | 578 | 494 | 84 | 2.1 | 0.4 | 1.7 |
| **Arfordir y De** | 261 | 43 | 528 | 453 | 75 | 1.7 | 0.3 | 1.7 |
| | | | | | | | | |
| **A ariennir gan yr UE** | 1,290 | 213 | 2,848 | 2,491 | 357 | 1.9 | 0.3 | 1.7 |
| **Nas ariennir gan yr UE** | 193 | 37 | 413 | 352 | 61 | 1.8 | 0.3 | 1.6 |
| | | | | | | | | |
| **Trefol** | 458 | 57 | 881 | 788 | 93 | 1.7 | 0.2 | 1.7 |
| **Gwledig** | 1,024 | 193 | 2,379 | 2,055 | 324 | 2.0 | 0.3 | 1.7 |


**Dosbarthiad y sgoriau'n sylweddol wahanol i gyfartaledd cyffredinol 2015**
Ffynhonnell**:** Q6 – pob aelod grwpiau (ymatebwyr ac aelodau eraill o'r grŵp) DS: data wedi'i bwysoli

Yn dilyn y data a gyflwynwyd yn Nhabl 1, mae Ffigur 7 yn dangos cyfraddau cymharol y grwpiau o ddefnyddwyr a gynhwyswyd yn yr ymchwil ac ynddynt blant.


At ei gilydd, roedd tua un o bob chwe grŵp o ddefnyddwyr yn cynnwys plant yn 2015 (17%), rhywfaint yn llai na ffigur 2011-13 o 19%. Fel y nodwyd eisoes,

roedd cymedr o 1.7 plentyn ym mhob grŵp yn 2015 (cyfartal â ffigur cymedrig 2011-13).

Y grwpiau a oedd yn defnyddio rhannau'r llwybr ym Mae Caerfyrddin a Gŵyr oedd y mwyaf tebygol o gynnwys plant (21%; 1.7 plentyn ym mhob grŵp), tra bod y rhai a oedd yn defnyddio rhannau'r llwybr ar hyd arfordir y gogledd oedd y lleiaf tebygol o gynnwys plant (14%). Ymhellach, ar hyd arfordir y gogledd, mewn grwpiau ***ac ynddynt*** blant, gwelwyd y nifer cymedrig isaf o blant ym mhob grŵp ar draws yr holl ranbarthau (1.5 plentyn ym mhob grŵp) – gweler Ffigur 7 isod.




Roedd grwpiau a oedd yn defnyddio rhannau o'r llwybr nas ariennir gan yr UE ychydig yn llai tebygol o gynnwys plant (19%) na'r rhai a oedd yn defnyddio mannau a ariennir gan yr UE (17%). Yn ogystal â hyn, roedd grwpiau a oedd yn defnyddio rhannau gwledig y llwybr yn fwy tebygol o gynnwys plant (16%) na'r rhai a oedd yn defnyddio rhannau trefol (12%) – gweler Ffigur 8 isod.




### *3.1.5 Ardal breswylio*

Mae Tabl 2 isod yn archwilio pob rhan o Lwybr Arfordir Cymru yn ôl yr ardal mae ymwelwyr yn preswylio ynddi. Ar y cyfan, roedd mwyafrif bach o ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru yn byw yng Nghymru (59%), er bod y gyfran hon yn amrywio yn ôl y rhan o'r llwybr roeddent yn ei defnyddio.

Er enghraifft, ar rannau'r llwybr yn Ynys Môn a Gwynedd, roedd mwyafrif bach o'r ymwelwyr yn byw yn Lloegr (54% a 53% yn ôl eu trefn), ond mewn rhannau eraill y llwybr, roedd tuedd fach at ragor o ymwelwyr a oedd yn byw yng Nghymru. Yr eithriad i hyn oedd y rhan o Lwybr Arfordir Cymru a leolir ar arfordir y de; yn yr ardal hon, roedd dros naw o bob ymwelwr â'r llwybr yn byw yng Nghymru (92%), gyda dim ond 7% yn dod o Loegr ac 1% o'r tu allan i Brydain Fawr.

Ymhellach, roedd trigolion Cymru yn tueddu i fyw'n weddol agos i'r rhan o'r llwybr roeddent yn ymweld â hi; er enghraifft, roedd 57% o ymwelwyr â'r llwybr ar hyd arfordir y gogledd yn byw yng ngogledd Cymru, a 50% o'r ymwelwyr â'r llwybr ar hyd arfordir y de yn byw yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru. Roedd pobl a oedd yn byw yn Lloegr a oedd yn ymweld â rhannau'r llwybr yn Ynys Môn, Gwynedd ac ar hyd arfordir y gogledd yn tueddu i fyw yng ngogledd-orllewin Lloegr – gweler Tabl 2 am ragor o fanylion.

| **TABL 2: Nifer ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru yn ôl ardal breswylio** | **CYFAN SWM %** | **Arfordir y Gogledd %** | **Ynys Môn %** | **Gwynedd %** | **Ceredigion %** | **Sir Benfro %** | **Bae Caerfyrddin a Gŵyr %** | **Arfordir y De %** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Maint y seiliau (cyfanswm yr ymwelwyr: ymatebwyr ac aelodau eraill o'r grŵp, gan gynnwys plant) | 2,962 | 627 | 522 | 209 | 217 | 348 | 555 | 483 |
| **CYMRU** | **59** | **58** | **44** | **45** | **55** | **52** | **56** | **92** |
| **Gogledd Cymru** | 23 | 57 | 42 | 44 | 1 | - | <1 | - |
| **Canolbarth a Gorllewin Cymru** | 10 | - | - | - | 49 | 29 | 14 | 3 |
| **De-orllewin Cymru** | 13 | 1 | 1 | - | 1 | 5 | 33 | 33 |
| **Y Cymoedd** | 2 | - | <1 | 1 | - | 7 | 3 | 6 |
| **Caerdydd a De-ddwyrain Cymru** | 11 | <1 | <1 | - | 4 | 11 | 6 | 50 |
| **LLOEGR** | **38** | **41** | **54** | **53** | **35** | **45** | **39** | **7** |
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | <1 | <1 | - | - | - | 1 | - | - |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | 13 | 22 | 31 | 23 | 5 | 3 | 1 | <1 |
| **Swydd Efrog a Humberside** | 2 | 4 | 3 | 5 | 3 | 1 | - | 1 |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 3 | 3 | 2 | 1 | 3 | 4 | 5 | - |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 8 | 10 | 6 | 16 | 14 | 7 | 6 | 2 |
| **Dwyrain Lloegr** | 2 | <1 | 1 | - | 1 | 7 | 1 | 1 |
| **Llundain Fawr** | 2 | <1 | 2 | - | 1 | 4 | 4 | 2 |
| **De-ddwyrain Lloegr** | 5 | <1 | 8 | 7 | 3 | 8 | 10 | - |
| **De-orllewin Lloegr** | 4 | 1 | 1 | 2 | 4 | 10 | 12 | 1 |
| **YR ALBAN** | **<1** | **<1** | **-** | **-** | **-** | **1** | **-** | **-** |
| **Y tu allan i Brydain Fawr** | **3** | **1** | **2** | **3** | **9** | **3** | **6** | **1** |

Ffynhonnell: Q6 – pob aelod o grwpiau (ymatebwyr ac aelodau eraill o'r grŵp)
DS: data wedi'i bwysoli. Mae dosbarthiad y sgoriau'n amrywio i'r graddau mae pob gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

Mae Ffigur 9 yn rhoi darluniad graffig o le mae ymwelwyr â'r llwybr yn byw, ac yn dangos yn glir bod y llwybr yn denu cyfran uchel o ymwelwyr lleol, gyda llawer o breswylfeydd mewn clystyrau yn agos i ardaloedd arfordir Cymru ei hun.

**Ffigur 9: Map yn dangos ardaloedd preswylio ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru**




### *3.1.6 Symudedd ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru*

Roedd yr arolwg yn cofnodi a oedd gan ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru broblemau iechyd neu anableddau (sy'n bara am dros 12 mis) a oedd yn rhwystro eu gweithgareddau bob dydd.


Dim ond tua un ymatebwr o bob deg, yn ystod dau gyfnod yr ymchwil, a ddywedodd fod ganddynt, neu gan rywun y eu grŵp uniongyrchol, salwch cyfyngol (12% yn y ddau arolwg). Nid oedd gan y rhan fwyaf (88%) unrhyw broblemau symudedd.

Roedd ymatebwyr ac aelodau o'u grwpiau ar hyd arfordir y gogledd yn fwy tebygol o fod â salwch cyfyngol (19%), tra oedd ymatebwyr ac aelodau o'u grwpiau yn Sir Benfro a Bae Caerfyrddin a Gŵyr yn llai tebygol o lawer o fod â salwch cyfyngol (4% a 5% yn ôl eu trefn). Mae'n bosibl bod hyn yn gysylltiedig ag oedran; roedd gan 21% o ymatebwyr 65 mlwydd oed neu'n hŷn salwch cyfyngol, ac roedd y gyfran o ymatebwyr 65 mlwydd oed neu'n hŷn ar ei huchaf ar hyd arfordir y gogledd (31%) ac ar ei hisaf ym Mae Caerfyrddin a Gŵyr (13%) – gweler Ffigur 10 isod.




Roedd gwahaniaethau bach iawn yn unig rhwng cyfran yr ymatebwyr/aelodau eraill y grŵp â salwch cyfyngol a oedd yn defnyddio rhannau'r llwybr ym mannau a ariennir gan yr UE (12%) a mannau nas ariennir gan yr UE (16%).

Roedd ymatebwyr ac aelodau o'u grŵp uniongyrchol a oedd yn ymweld â rhannau trefol y llwybr bron dwywaith mor debygol o fod â salwch cyfyngol (17%) na'r rhai a oedd yn ymweld â rhannau gwledig y llwybr (10%); mae hyn yn awgrymu bod mynediad haws ar rannau trefol y llwybr o gymharu â rhannau gwledig – gweler Ffigur 11 isod.



## 3.2 Ymwybyddiaeth o Lwybr Arfordir Cymru

### *3.2.1 Ymwybyddiaeth bod Llwybr Arfordir Cymru wedi'i gwblhau*


Cafodd Llwybr Arfordir Cymru ei agor yn swyddogol ym mis Mai 2012; er y cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer arolwg 2015 ar ôl y dyddiad agor swyddogol hwn, roedd gwaith maes ar gyfer 2011-13 yn rhychwantu'r cyfnod cyn ac ar ôl yr agor swyddogol.

Mae Ffigur 12 isod yn dangos sut mae lefelau o ymwybyddiaeth bod y llwybr wedi cael ei gyfuno yn un llwybr wedi cynyddu'n sylweddol o 8% ers 2011-13 (38% i 46% yn 2015). Fodd bynnag, mae mwyafrif bach o'r ymatebwyr yn parhau i fod yn anwymwybodol o'r ffaith bod y llwybr wedi cael ei gyfuno (54%).

Roedd chwarter o'r ymatebwyr yn 2015 yn credu nad oedd Llwybr Arfordir Cymru wedi'i gyfuno ar hyn o bryd ond y byddai yn y dyfodol (2015%), tra oedd tua un o bob deg yn credu na fyddai'r llwybr byth yn cael ei gyfuno (9%). Nid oedd un o bob pump arall yn gwybod beth oedd statws y llwybr o ran cael ei gyfuno (20%).

Roedd ymwybyddiaeth bod y llwybr wedi cael ei gyfuno'n un llwybr yn sylweddol uwch ymhlith ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r rhan yn Sir Benfro (61%) ac ar ei isaf ar hyd arfordir y de (34%); mae'r canfyddiad diwethaf yn arbennig o ddiddorol o ystyried bod hanner yr ymwelwyr â rhan y llwybr ar arfordir y de yn byw'n lleol – gweler Ffigur 12 isod.

**Ffig.12: Ymwybyddiaeth bod Llwybr Arfordir Cymru wedi'i gwblhau yn ôl rhanbarth %**





Dosbarthiad sgoriau'n sylweddol wahanol rhwng y cyfnodau gwahanol o ymchwil ac ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaledd cyffredinol 2015

Ffynhonnell: Q3 – pob ymatebwr. Mae seiliau'n amrywio (mewn cromfachau).

Roedd ymwybyddiaeth bod y llwybr wedi cael ei gyfuno'n uwch ymhlith ymatebwyr a oedd yn defnyddio rhannau gwledig (50%) o gymharu â rhannau trefol (37%); nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol o ran ymwybyddiaeth rhwng mannau a ariennir gan yr UE a mannau nas ariennir gan yr UE.

Roedd ymwybyddiaeth bod y llwybr wedi'i gyfuno, fel y disgwylid, ychydig yn uwch ymhlith ymatebwyr a oedd y byw yng Nghymru (48%) o gymharu â'r rhai a oedd yn byw yn Lloegr (44%). Er bod ymwybyddiaeth yn uwch ymhlith ymatebwyr o'r tu allan i Brydain Fawr (53%), argymhellir rhywfaint o ofal wrth ystyried y data hwn oherwydd y sail fach iawn o ymatebwyr (31 ymatebwr) – gweler Ffigur 13 isod.

**Ffig.13: Ymwybyddiaeth bod Llwybr Arfordir Cymru wedi'i gwblhau yn ôl rhanbarth a ariennir gan yr UE, ardal drefol/gweledig, gwlad cartref yn ymatebwr a'r math o lwybr %**




**Dosbarthiad sgoriau sy'n sylweddol wahanol rhwng y cyfnodau gwahanol o ymchwil, ac ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaleddau 2015 yn gyffredinol**

Ffynhonnell: Q3 – pob ymatebwr Seiliau'n amrywio (mewn cromfachau) – **NODER BOD MAINT Y SAIL YN FACH**

Roedd nifer fach o wahaniaethau eraill rhwng is-grwpiau o ran lefelau o ymwybyddiaeth bod y llwybr wedi'i gyfuno:

- Roedd gwrywod yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol na menywod (49% o gymharu â 43%).
- Roedd y rhai yn y categori ABC1 yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol na rhai yn y categori C2DE (48% o gymharu â 41%).
- Roedd y rhai 55 mlwydd oed neu'n hŷn yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol (49%) na'r rhai rhwng 16 a 34 (38%) a'r rhai rhwng 35 a 54 mlwydd oed (44%).

### *3.2.2 Ymwybyddiaeth o'r math o lwybr*

Roedd ar arolwg yn trafod a oedd yr ymatebwyr yn credu bod y rhan o'r llwybr roeddent arni ar adeg y cyfweliad wedi gwella, yr un peth ag o'r blaen, neu'n rhan newydd o'r llwybr. Dangosir y canfyddiadau yn Nhabl 3 ar bwys lleoliad y cyfweliad ei hun; mae'r atebion cywir wedi cael eu hamlygu â lliw gwyrdd.

Gwnaeth dros hanner yr ymatebwyr nodi natur rhannau'r llwybr nad oeddent wedi newid yn gywir (53%); mae hyn wedi codi o'r 44% yn 2011-13. Gwnaeth un o bob tri pellach nodi'n gywir rhannau'r llwybr a oedd wedi gwella (35%; i lawr o'r 45% yn 2011-13). Dim ond 2% o'r ymatebwyr ar rannau newydd y llwybr a oedd yn nodi hynny'n gywir; mae hyn bron a bod yr un nifer ag arolwg 2011-13 (3%).

Felly, roedd canrannau gweddol uchel o ymatebwyr yn aneglur ynglŷn â natur y llwybr roeddent yn ei ddefnyddio – gweler Tabl 3 isod am ragor o fanylion.

| TABL 3: Canfyddiad ymatebwyr o'r math o lwybr roeddent yn ei ddefnyddio | Gwir natur y llwybr lle y cyfwelwyd â nhw | | |
|---|---|---|---|
| | Heb ei newid (885) | Wedi'i wella (304) | Newydd (294) |
| **Rhan o'r llwybr a oedd yn bodoli eisoes nad oedd wedi'i newid** | **53** | 40 | 48 |
| **Rhan o'r llwybr a oedd wedi'i gwella** | 26 | **35** | 31 |
| **Rhan newydd o'r llwybr** | 2 | 8 | **2** |
| **Ddim yn gwybod** | 20 | 16 | 20 |


Ffynhonnell: Q4
Seiliau mewn cromfachau: pob ymatebwr y cyfwelwyd ag ef

## 3.3 <u>Defnyddio Llwybr Arfordir Cymru</u>

### *3.3.1 Y mathau o drafnidiaeth a ddefnyddiwyd*


Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cerdded ar hyd Llwybr Arfordir Cymru pan gyfwelwyd â nhw yn 2015 (93%); mae hwn bron â bod yr un ffigur â 2011-13 (94%). Roedd llai nag un o bob deg yn beicio (6%), er bod y ffigur hwn wedi cynyddu'n sylweddol ers 2011-13 (4%). Roedd lleiafrif bach iawn yn defnyddio dulliau trafnidiaeth eraill (e.e. marchogaeth, cerbyd modur, cerbyd cymorth/anabledd).

Parhaodd y patrwm hwn i fod yn weddol gyson ar draws pob rhan o'r llwybr, er bod beicwyr yn llawer mwy cyffredin ar rannau'r o'r llwybr ar arfordir y gogledd (15%) nag mewn mannau eraill. Yn Ynys Môn, roedd yr holl ymatebwyr y cyfwelwyd â nhw'n cerdded ar hyd Llwybr Arfordir Cymru (100%) – gweler Ffigur 14 isod.




Roedd y patrwm cyffredinol ar gyfer y dulliau o drafnidiaeth a oedd yn cael eu defnyddio'n gyson â'r cyfrannau cyffredinol ar gyfer mannau a ariennir gan yr UE/nas ariennir gan yr UE a lleoliadau trefol/gwledig.

Fodd bynnag, roedd mwy o feicwyr o gryn dipyn yn defnyddio rhannau trefol o'r llwybr (12%) o gymharu â rhannau gwledig (3%) – gweler Ffigur 15 isod.




**Ffig.15: Dull trafnidiaeth ymatebwyr yn ôl mannau a ariennir gan yr UE a lleoliad trefol/gwledig.**

### *3.3.2 Y math o daith*


Gwnaeth y gyfran gyffredinol o ymatebwyr a oedd yn ymwelwyr undydd neu ymwelwyr a oedd yn aros dros nos (y rhai a oedd yn aros dros nos neu'n aros fel rhan o wyliau hwy) barhau i fod yr un peth rhwng 2011-13 a 2015; roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwelwyr undydd (61%), tra oedd tua phedwar o bob deg yn ymwelwyr a oedd yn aros dros nos (39%).

Fodd bynnag, roedd cryn amrywiaeth yn y cyfrannau hyn yn ôl yr ardal roedd y llwybr wedi'i leoli ynddi. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ar rannau o'r llwybr ar arfordir y de yn ymwelwyr undydd (93%), sy'n gysylltiedig â'r canfyddiad bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yma'n byw naill yng Nghaerdydd/de-ddwyrain Cymru, y Cymoedd neu dde-orllewin Cymru (89%). Hefyd, roedd saith o bob deg ymatebwr y cyfwelwyd â nhw ar hyd arfordir y gogledd yn ymwelwyr undydd (72%).

Fodd bynnag, yn Sir Benfro roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn aros yn yr ardal dros nos neu fel rhan o wyliau hwy (64%). Gwelwyd cyfrannau uwch o ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yng Ngwynedd (57%), Ynys Môn (54%), Ceredigion (48%) a Bae Caerfyrddin a Gŵyr (47%) – gweler Ffigur 16 isod.




Roedd ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r llwybr ar gyfer ymweliad undydd â'r ardal yn llawer mwy cyffredin ym mannau nas ariennir gan yr UE (91%) ac ardaloedd trefol (81%) na mannau a ariennir gan yr UE (56%) ac ardaloedd gwledig (51%) – gweler Ffigur 17 isod.



Fel y disgwylid, roedd ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yn cyfrif am gyfran uwch o lawer o ymatebwyr yn ystod misoedd yr haf (50%) nag yn ystod adegau eraill y flwyddyn. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol cyfoethocach (AB = 48%).

Roedd ymwelwyr undydd yn fwy tebygol o fod yn 65 mlwydd oed neu'n hŷn (69%) o gymharu â grwpiau iau.


### *3.3.3 Y llety a ddefnyddiwyd gan ymwelwyr sy'n aros dros nos*

Ymwelwyr a oedd yn aros dros nos oedd y mwyaf tebygol o dreulio eu hamser mewn gwersyllfa/maes carafanau, neu mewn llety hunanddarpar (25% yr un).

Roedd tua'r un cyfrannau (tua un o bob deg ymwelwr a oedd yn aros dros nos) yn treulio eu gwyliau gyda ffrindiau/teulu (12%), mewn tŷ gwesteion/llety brecwast a gwely neu mewn gwesty (10% ar gyfer pob un); cyfran fach iawn yn unig a oedd yn aros mewn hostel (1%).[13]

Roedd hyn yn golygu mai nifer cymedrig y nosweithiau a dreuliwyd yng Nghymru oedd chwech, ac mai'r ffigur cymedrig a wariwyd ar lety bob nos oedd £74.11 – gweler Ffigur 18 isod.

**Ffig.18: Math o lety a ddefnyddiwyd (ymwelwyr dros nos yn unig) %**




Ffynhonnell: Q12, Q13a, Q13b – pob ymwelydd dros nos. Wedi'i ailseilio i dynnu 'ddim yn gwybod' a'r rhai a wrthododd ymateb.
Seiliau mewn cromfachau = gwir nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd: Math o lety (546); Nifer cymedrig y


[13] Er i un o bob pum ymwelydd a oedd yn aros dros nos ddweud eu bod yn aros mewn llety o fath 'arall', nid oedd yn bosibl gwneud dadansoddi pellach o'r mathau o lety a ddefnyddiwyd, gan fod yr opsiwn hwn wedi cael ei godio ymlaen llaw a ni chafodd manylion ynglŷn â'r math o lety eu cofnodi.

Mae'r mathau o lety a ddefnyddiwyd gan ymwelwyr sy'n aros dros nos wedi newid rhywfaint ers 2011-13. Yn yr ymchwil flaenorol, roedd cyfran uwch o lawer o ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yn gwersylla yng Nghymru (41%) o gymharu â'r ymchwil ddiweddaraf (25%), ac roedd llai o ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yn treulio eu gwyliau mewn llety hunanddarpar (21% yn 2011-13 o gymharu â 25% yn 2015).

Wrth droi'n ôl at yr ymchwil ddiweddaraf, roedd rhai gwahaniaethau rhanbarthol yn y math o lety a ddefnyddiwyd gan ymwelwyr a oedd yn aros dros nos. Roedd cyfran uwch o ymwelwyr a oedd yn aros dros nos a oedd yn defnyddio rhannau o'r llwybr ar hyd arfordir y gogledd ac arfordir y de yn gwersylla (37% a 31% yn ôl eu trefn), ac o'r herwydd, yn llai tebygol o aros mewn llety hunanddarpar/a wasanaethir neu gyda ffrindiau a theulu.

Ymwelwyr a oedd yn aros dros nos y cyfwelwyd â nhw ar rannau'r llwybr ym Mae Caerfyrddin a Gŵyr oedd y mwyaf tebygol o ddefnyddio llety hunanddarpar neu lety a wasanaethir (68%) – gweler Ffigur 19 isod am ragor o fanylion.

**Ffig.19: Math o lety a ddefnyddiwyd (ymwelwyr dros nos yn unig) yn ôl rhanbarth y llwybr %**




Dosbarthiad sgoriau'n sylweddol wahanol rhwng y cyfnodau gwahanol o ymchwil ac ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaledd cyffredinol 2015

Ffynhonnell: Q13a – pob ymwelydd dros nos. Wedi'i ailseilio i dynnu 'ddim yn gwybod' a'r rhai a wrthododd ymateb.

### *3.3.4 Pa mor aml mae pobl yn defnyddio Llwybr Arfordir Cymru*


Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn 2015 wedi ymweld â Llwybr Arfordir Cymru o'r blaen (93% o gymharu â 91% yn 2011-13). Felly, roedd y rhai a oedd yn ymweld am y tro cyntaf yn cyfrif am 7% yn unig o'r ymatebwyr yn 2015 (yn codi i 13% yng Ngheredigion). Er bod y ffigurau'n weddol gyson â'r canfyddiadau yn 2011-13, mae dosbarthiad y sgoriau'n wahanol iawn yn ymchwil 2015 o gymharu â'r arolwg blaenorol.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn teuddu i ymweld â Llwybr Arfordir Cymru yn weddol reolaidd, gyda bron i ddau ymatebwr o bob tri'n defnyddio'r llwybr unwaith y mis neu fwy (64% yn 2015 o gymharu â 66% yn 2011-13).

Roedd ymwelwyr undydd â Llwybr Arfordir Cymru yn 2015 yn cyfrif am un o bob pump o'r ymatebwyr y cyfwelwyd â nhw (18%); nid yw'r ffigur hwn wedi newid ond ychydig ers 2011-13 (19%). Roedd yr ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r llwybr bob dydd ar eu huchaf ar hyd arfordir y gogledd (25%) ac yng Ngheredigion (23%). Roedd y rhai a oedd yn defnyddio'r llwybr unwaith yr wythnos yn cyfrif am tua chwarter o'r holl ymatebwyr (26%), tra oedd un o bob pump yn defnyddio rhan o Lwybr Arfordir Cymru o leiaf unwaith y mis (20%).

Roedd un o bob pump pellach yn defnyddio'r llwybr o leiaf unwaith y flwyddyn (22%), gydag ymwelwyr sy'n defnyddio'r llwybr yn anaml (bron byth yn defnyddio'r llwybr) yn cyfrif am 6% o'r sampl yn unig; yr ymatebwyr a oedd yn defnyddio rhannau'r llwybr ym Mae Caerfyrddin a Gŵyr oedd y mwyaf tebygol o 'bron byth' yn defnyddio Llwybr Arfordir Cymru (13%) – gweler Ffigur 20 isod.

**Ffig.20: Pa mor aml mae pobl yn defnyddio Llwybr Arfordir Cymru yn ôl rhanbarth %**




Dosbarthiad sgoriau'n sylweddol wahanol rhwng y cyfnodau gwahanol o ymchwil ac ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaledd cyffredinol 2015

Ffynhonnell: Q14 – pob ymatebwr. Wedi'i ailseilio i dynnu'r rhai a wrthododd ateb. Mae seiliau'n amrywio (mewn cromfachau).


beaufortresearch

Roedd ymatebwyr a oedd yn defnyddio Llwybr Arfordir Cymru mewn mannau a ariennir gan y EU yn **llai tebygol** o ymweld yn rheolaidd (unwaith y mis neu fwy) na'r rhai mewn mannau nas ariennir gan yr UE (63% o gymharu â 78%). Hefyd, roedd ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r llwybr mewn lleoliadau trefol yn **fwy tebygol** o ymweld yn rheolaidd (73%) na'r rhai mewn mannau gwledig (60%).

Roedd bron pob ymatebwr y cyfwelwyd ag ef a oedd yn ymwelydd undydd wedi ymweld â Llwybr Arfordir Cymru o'r blaen (99%); ymhellach, roedd 85% o'r rhai a oedd yn aros dros nos neu fel rhan o wyliau hwy wedi ymweld â'r llwybr o'r blaen.

Fel y disgwylid, roedd ymwelwyr undydd yn fwy tebygol o lawer o ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru o leiaf unwaith y flwyddyn (67%) o gymharu ag ymwelwyr a oedd yn aros dros nos (10%); roedd ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yn teuddu i ddefnyddio'r llwybr tuag unwaith y flwyddyn (42%) – gweler Ffigur 21 isod.

**Ffig.21: Amlder defnyddio Llwybr Arfordir Cymru yn ôl rhanbarth a ariennir gan yr UE, ardal drefol/gwledig a math o daith %**




**Dosbarthiad sgoriau sy'n sylweddol wahanol rhwng y cyfnodau gwahanol o ymchwil, ac ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaleddau 2015 yn gyffredinol**

Ffynhonnell: Q14 – pob ymatebwr. Wedi'i ailseilio y dynnu'r rhai a wrthododd ymateb. Seiliau'n amrywio (mewn cromfachau)


beaufortresearch

### *3.3.5 Rhesymau dros ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru*

Gan adlewyrchu canfyddiadau blaenorol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cyfwelwyd â nhw'n defnyddio'r llwybr fel rhan o daith hamdden o'u cartref (60% o gymharu â 58% yn 2011-13). Roedd 38% pellach yn defnyddio'r llwybr fel taith hamdden fel rhan o seibiant hwy neu wyliau yng Nghymru; nid yw'r ffigur hwn wedi newid ers 2011-13.

Roedd y gyfran o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r llwybr i deithio i'w gweithle arferol ac yn ôl, neu i wneud teithiau gwaith anarferol, yn fach iawn (2% ac 1% yn ôl eu trefn). Mae dosbarthiad y sgoriau yn 2015 yn sylweddol wahanol i 2011-13.


Roedd ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r llwybr ar hyd arfordir y de'n fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio'r llwybr fel rhan o daith hamdden o'u cartref (88%), tra bod y rhai a oedd yn defnyddio rhannau yn Sir Benfro oedd y mwyaf tebygol o ddefnyddio'r llwybr fel rhan o seibiant hwy neu wyliau yng Nghymru (62%) – gweler Ffigur 22 isod am ragor o fanylion.




Roedd ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r llwybr mewn mannau nas ariennir gan yr UE yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r llwybr fel rhan o daith hamdden o'u cartref (86%) na'r rhai a oedd yn defnyddio'r llwybr mewn mannau a ariennir gan yr UE (56%). Roedd niferoedd uwch o bobl ar eu gwyliau mewn ardaloedd gwledig (47%) nag ardaloedd trefol (18%).

Fel y disgwylid, roedd y rhan fwyaf o'r ymwelwyr undydd yn defnyddio'r llwybr fel rhan o daith hamdden o'u cartref (96%), tra oedd y rhan fwyaf o ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yn defnyddio'r llwybr fel rhan o seibiant hwy neu wyliau yng Nghymru (95%) – gweler Ffigur 23 isod.

**Ffig.23: Rhesymau dros ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru yn ôl rhanbarth a ariennir gan yr UE, ardal drefol/gwledig a math o daith %**




**Dosbarthiad sgoriau sy'n sylweddol wahanol rhwng y cyfnodau gwahanol o ymchwil, ac ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaleddau 2015 yn gyffredinol**

Ffynhonnell: Q2 – pob ymatebwr. Wedi'i ailseilio i dynnu'r rhai a wrthododd ateb. Seiliau'n amrywio

### *3.3.6 Opsiynau eraill pe na bai rhan o Lwybr Arfordir Cymru wedi bod ar gael*

Pan ofynnwyd iddynt beth byddent wedi'i wneud pe na baent wedi llwyddo i gael mynediad at y rhan benodol honno o Lwybr Arfordir Cymru, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt y byddent wedi ceisio llwybr arall ar gyfer cerdded, beicio neu farchogaeth (77%, cryn dipyn yn uwch na'r 73% yn 2011-13).

Byddai ychydig o dan un o bob ugain (4%) wedi gwneud y daith trwy ddefnyddio cerbyd modur, tra dywedodd cyfran ychydig yn uwch na fyddent wedi gwneud y daith o gwbl (7%); roedd nifer y rhai a ddywedodd y byddent wedi rhoi'r gorau i'w cynlluniau teithio pe na baent wedi llwyddo i gael mynediad at Lwybr Arfordir Cymru ar ei uchaf ymhlith ymatebwyr y cyfwelwyd â nhw ar hyd arfordir y de (14%) – gweler Tabl 4a isod.

| TABL 4a: Opsiynau eraill pe na bai rhan o Lwybr Arfordir Cymru wedi bod ar gael. Canran yr ymatebwyr | Cyfanswm 2011-13 % (1,492) | Cyfanswm % (1,443) | Arfordir y Gogledd % (338) | Ynys Môn % (212) | Gwynedd % (125) | Ceredigion % (94) | Sir Benfro % (151) | Bae Caerfyrddin a Gŵyr % (214) | Arfordir y De % (309) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi cerdded/beicio/marchogaeth ar lwybr arall mewn lleoliad arall** | 73 | 77 | 63 | 65 | 82 | 86 | 85 | 93 | 79 |
| **Wedi gwneud y daith mewn car/fan/bws/trên ac ati** | 11 | 4 | 4 | 4 | 5 | 6 | 7 | 1 | 5 |
| **Ddim wedi gwneud y daith na cherdded/beicio/ marchogaeth o gwbl** | 9 | 7 | 6 | 4 | 7 | 5 | 7 | 6 | 14 |
| **Arall** | 7 | 12 | 28 | 27 | 6 | 2 | 1 | - | 2 |

**Sgoriau sy'n sylweddol wahanol rhwng y cyfnodau gwahanol o ymchwil ac ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaledd cyffredinol 2015**

Ffynhonnell: Q5
Seiliau mewn cromfachau: pob ymatebwr y cyfwelwyd ag ef. Wedi'i ailseilio i dynnu 'ddim yn gwybod' a rhai a wrthododd ymateb.

Roedd rhai gwahaniaethau sylweddol yn y data ar gyfer mannau a ariennir gan yr UE/nas ariennir gan yr UE, ardaloedd trefol/gwledig ac ymwelwyr undydd/ymwelwyr a oedd yn aros dros nos; er enghraifft, roedd cyfran uwch o lawer o ymatebwyr ym mannau'r llwybr nas ariennir gan yr UE na fyddent wedi gwneud y siwrnai (17%) o gymharu â mannau a ariennir gan yr UE (6%) – gweler Tabl 4b isod.

| **TABL 4b:** **Opsiynau eraill pe na bai rhan o Lwybr Arfordir Cymru wedi bod ar gael** **Canran yr ymatebwyr** | Cyfanswm 2011-13 % (1,492) | Cyfanswm 2015 % (1,443) | A ariennir gan yr UE % (1,161) | Nas ariennir gan yr UE % (282) | Trefol % (451) | Gwledig % (992) | Taith undydd % (895) | Taith aros dros nos % (540) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi cerdded/beicio/marchogaeth ar lwybr arall mewn lleoliad arall** | 73 | 77 | 77 | 72 | 79 | 76 | 76 | 77 |
| **Wedi gwneud y daith mewn car/fan/bws/trên ac ati** | 11 | 4 | 4 | 5 | 8 | 7 | 3 | 6 |
| **Ddim wedi gwneud y daith na cherdded/beicio/ marchogaeth o gwbl** | 9 | 7 | 6 | 17 | 5 | 4 | 7 | 6 |
| **Arall** | 7 | 12 | 13 | 6 | 8 | 13 | 13 | 10 |

**Sgoriau sy'n sylweddol wahanol rhwng y cyfnodau gwahanol o ymchwil ac ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaleddau cyffredinol 2015**

Ffynhonnell: Q5

Seiliau mewn cromfachau: pob ymatebwr y cyfwelwyd ag ef. Wedi'i ailseilio i dynnu 'ddim yn gwybod' a rhai a wrthododd ymateb.

### 3.3.7 Y pellter a deithiwyd ar hyd Llwybr Arfordir Cymru

Roedd yr holiadur yn cynnwys map manwl o'r ardal o amgylch lleoliad y cyfweliad ac roedd Llwybr Arfordir Cymru wedi ei amlygu mewn coch. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi llwybr y daith roeddent yn ei dilyn y diwrnod hwnnw ar hyd y llwybr. Yna cafodd y pellter a deithiwyd ei gyfrifo gan Beaufort Research pan ddychwelwyd yr holiaduron i'r swyddfa.

Mae'r pellter a gofnodwyd yn cynrychioli'r milltiroedd a deithiwyd, ac yn ystyried teithiau dwyffordd (lle y nodwyd y rhain).

Fel y dangosir yn Nhabl 5, roedd ymatebwyr yn 2015 yn defnyddio hyd cymedrig o 2.9 milltir o'r llwybr; mae hyn cryn dipyn yn uwch na'r hyd o 1.8 milltir yn 2011-13, er ei bod yn rhaid nodi nad oedd teithiau dwyffordd yn cael eu cyfrif yn y cyfrifiadau yn yr ymchwil flaenorol (gan nad oedd y data hwn wedi'i gasglu). Cafodd y milltiredd uchaf ei gofnodi ymhlith ymatebwyr yn defnyddio'r llwybr ar arfordir y gogledd (cymedr o 4.3 milltir), a'r milltiredd isaf a ddefnyddiwyd ymhlith ymatebwyr yn defnyddio'r llwybr yn Ynys Môn (cymedr o 1.9 milltir).

Teithiwyd pellteroedd hwy ar draws ardaloedd y llwybr a ariennir gan yr UE na'r ardaloedd nas ariennir gan yr UE (cymedr o 3.0 milltir o gymharu â 2.2 milltir), a phellteroedd hwy ar draws ardaloedd trefol (cymedr o 3.4 milltir) o gymharu ag ardaloedd gwledig (cymedr o 2.3 milltir).

Roedd ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yn dueddol o deithio pellteroedd hwy ar hyd Llwybr Arfordir Cymru (cymedr o 3.2 milltir) nac ymwelwyr a oedd ar daith undydd (cymedr o 2.7 milltir).

Pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn teithio'n ôl ar hyd yr un darn o Lwybr Arfordir Cymru yr oeddent wedi teithio arno, dywedodd oddeutu tri chwarter ohonynt y byddent yn gwneud hynny (72%); cododd y gyfran hon i 81% ymysg rhannau arfordir y gogledd o'r llwybr, ond cwympodd i 58% yn Sir Benfro – gweler Tabl 5 am ragor o fanylion.

| TABL 5: Pellter a deithiwyd ar hyd Llwybr Arfordir Cymru mewn un cyfeiriad | Sail (ymatebwyr) | Milltir oedd cymedrig | Cilomedrau cymedrig | Sail (ymatebwyr) | Teithio'n ôl ar hyd yr un ffordd ar Lwybr Arfordir Cymru? | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ie | Na |
| **Cyfanswm 2011-13** | (1,559) | 1.8 | 2.9 | | | |
| **Cyfanswm 2015** | (1,477) | 2.9 | 4.7 | (1,420) | 72 | 28 |
| | | | | | | |
| **Arfordir y Gogledd** | (343) | 4.3 | 6.9 | (330) | 81 | 19 |
| **Ynys Môn** | (220) | 1.9 | 3.1 | (206) | 63 | 37 |
| **Gwynedd** | (127) | 2.0 | 3.2 | (120) | 65 | 35 |
| **Ceredigion** | (94) | 3.3 | 5.3 | (91) | 70 | 30 |
| **Sir Benfro** | (151) | 3.2 | 5.1 | (149) | 58 | 42 |
| **Bae Caerfyrddin a Gŵyr** | (219) | 3.0 | 4.8 | (217) | 76 | 24 |
| **Arfordir y De** | (323) | 2.1 | 3.4 | (307) | 77 | 23 |
| | | | | | | |
| **A ariennir gan yr UE** | (1,186) | 3.0 | 4.8 | (1,145) | 72 | 28 |
| **Nas ariennir gan yr UE** | (291) | 2.2 | 3.5 | (275) | 70 | 30 |
| | | | | | | |
| **Trefol** | (469) | 3.4 | 5.5 | (448) | 74 | 26 |
| **Gwledig** | (1,008) | 2.3 | 3.7 | (972) | 71 | 29 |
| | | | | | | |
| **Taith undydd** | (923) | 2.7 | 4.3 | (890) | 72 | 28 |
| **Taith dros nos** | (546) | 3.2 | 5.1 | (524) | 72 | 28 |

**Sgoriau sy'n sylweddol wahanol rhwng y cyfnodau gwahanol o ymchwil, ac ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaledd cyffredinol 2015**

Ffynhonnell: Q7 a Q8
Seiliau mewn cromfachau: pob ymatebwr a gafodd gyfweliad. Wedi'i ail-seilio i dynnu 'ddim yn gwybod' a rhai a wrthododd ymateb.
Sylwer – ni chafodd Q8 (teithio'n ôl ar hyd yr un ffordd) ei ofyn yn arolwg 2011-13 (2011-13).

Wrth edrych ar y data yn fwy manwl, fel y gellid disgwyl, roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn beicio ar hyd Llwybr Arfordir Cymru'n teithio yn bellach na'r rhai a oedd yn cerdded (11.1 milltir o gymharu â 2.4 milltir). Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld rhwng misoedd cynhesaf Ebrill a Medi yn teithio'n bellach ar hyd y llwybr na'r rhai a gafodd eu cyfweld rhwng mis Hydref a mis Mawrth (3.1 milltir o gymharu â 2.6 milltir), a theithiodd y rhai 65+ oed am bellteroedd llai (2.4 milltir) na'r rhai 35-54 oed (3.1 milltir) a'r rhai 55-64 oed (3.3 milltir.

Wedi dweud hynny, roedd ymatebwyr iau 16-34 oed hefyd yn tueddu i deithio pellteroedd llai ar hyd Llwybr Arfordir Cymru (2.6 milltir).

### *3.3.8 Gwariant wrth ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru*

Gofynnwyd i ymatebwyr a'r rhai yn eu grŵp uniongyrchol faint roeddent yn bwriadu ei wario wrth deithio ar hyd y rhan o Lwybr Arfordir Cymru lle cawsant eu cyfweld, ac ar eu taith gyfan (ar y diwrnod hwnnw).

Yn yr arolwg mwyaf diweddar, roedd ymatebwyr a'u grŵp uniongyrchol yn bwriadu gwario £4.63 ar y rhan honno o'r llwybr ar gyfartaledd (yn sylweddol uwch na'r £3.52 yn 2011-13). Roedd gwariant cymedrig ar ei uchaf ar hyd rhannau o'r llwybr ym Mae Caerfyrddin a Gŵyr (£6.90) ac ar ei isaf ar hyd y llwybr ar arfordir y gogledd (£2.19).

Roedd gwariant cymedrig yn amlwg yn uwch ar rannau o'r llwybr mewn ardaloedd a ariennir gan yr UE (£4.88) o gymharu ag ardaloedd nas ariennir gan yr UE (£2.98), ac yn uwch mewn ardaloedd gwledig (£5.09) o gymharu ag ardaloedd trefol (£3.62). Roedd ymwelwyr dros nos yn bwriadu gwario ymron i dair gwaith cymaint ag ymwelwyr undydd ar hyd y rhannau o'r llwybr lle cawsant eu cyfweld (£7.50 o gymharu â £2.79).

O ran gwariant ar yr holl daith (ac eithrio llety), roedd ymatebwyr a'u grŵp uniongyrchol yn bwriadu gwario £15.18 ar gyfartaledd, ychydig yn is na ffigur 2011-13 o £15.62. Roedd y gwariant cymedrig ar daith ar ei uchaf yn Sir Benfro (£27.34) ac ar ei isaf ar hyd arfordir y gogledd (6.99).

Fel y nodwyd eisoes, gwariant cymedrig bob nos ar lety oedd £74.11 (i lawr o £76.42 yn 2011-13); cododd hyn i £85.37 yn Ynys Môn a gostyngodd i £52.63 ar hyd arfordir y gogledd.

Roedd ymwelwyr dros nos yn yr ardaloedd o'r llwybr a ariennir gan yr UE yn dueddol o wario mwy ar lety (£80.26) na'r rhai mewn ardaloedd nas ariennir gan yr UE (£49.09); roedd gwariant ar lety mewn ardaloedd trefol yn erbyn ardaloedd gwledig yn gymharol – gweler Tabl 6 am ragor o fanylion.

| TABL 6: Gwariant cymedrig wrth ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru<br><br>Ymatebwyr a'u grŵp uniongyrchol | Sail<br>(ymatebwyr) | Gwariant cymedrig ar hyd rhan o Lwybr Arfordir Cymru | Sail<br>(ymatebwyr) | Gwariant cymedrig ar y daith gyfan ac eithrio llety | Sail<br>(ymatebwyr yn talu am lety yn unig) | Gwariant cymedrig ar lety |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm 2011-13** | (1,535) | £3.52 | (1,489) | £15.62 | (130) | £76.42 |
| **Cyfanswm 2015** | (1,454) | £4.63 | (1,372) | £15.18 | (297) | £74.11 |
| | | | | | | |
| **Arfordir y Gogledd** | (340) | £2.19 | (335) | £6.99 | (51) | £52.63 |
| **Ynys Môn** | (216) | £6.35 | (213) | £18.81 | (56) | £85.37 |
| **Gwynedd** | (125) | £3.39 | (124) | £19.37 | (28) | £70.11 |
| **Ceredigion** | (95) | £3.66 | (95) | £13.24 | (28) | £65.11 |
| **Sir Benfro** | (143) | £6.68 | (123) | £27.34 | (56) | £78.82 |
| **Bae Caerfyrddin a Gŵyr** | (213) | £6.90 | (171) | £22.58 | (65) | £80.88 |
| **Arfordir y De** | (322) | £4.03 | (311) | £9.29 | (13) | £82.03 |
| | | | | | | |
| **A ariennir gan yr UE** | (1,164) | £4.88 | (1,094) | £16.14 | (282) | £80.26 |
| **Nas ariennir gan yr UE** | (290) | £2.98 | (278) | £8.98 | (15) | £49.09 |
| | | | | | | |
| **Trefol** | (465) | £3.62 | (460) | £9.55 | (53) | £71.13 |
| **Gwledig** | (989) | £5.09 | (912) | £17.14 | (244) | £74.73 |
| | | | | | | |
| **Taith undydd** | (914) | £2.79 | (861) | £6.98 | | |
| **Taith dros nos** | (532) | £7.50 | (504) | £27.81 | (297) | £74.11 |
| **Gwariwyd gan bob oedolyn ar bob ymweliad** | | | | | | |
| **Taith undydd mewn ardal a ariennir gan yr UE** | (651) | £1.74 | (607) | £4.49 | | |
| **Taith dros nos mewn ardal a ariennir gan yr UE** | (507) | £3.31 | (482) | £12.24 | (471) | £19.92 |
| **Taith undydd mewn ardal nas ariennir gan yr UE** | (263) | £1.21 | (254) | £2.87 | | |
| **Taith dros nos mewn ardal nas ariennir gan yr UE** | (25) | £4.88 | (22) | £22.74 | (23) | £20.63 |

**Sgoriau sy'n sylweddol wahanol rhwng y cyfnodau gwahanol o ymchwil, ac ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaledd cyffredinol 2015**
Ffynhonnell: Q10a, Q10b, Q13b
Seiliau mewn cromfachau: pob ymatebwr a gafodd gyfweliad. Wedi'i ail-seilio i dynnu 'ddim yn gwybod' a rhai a wrthododd ymateb.
Noder – mae gwariant a bwysolwyd ar hyd Llwybr Arfordir Cymru a'r daith gyfan yn cynnwys seroau (h.y. dim gwariant). **Nid yw** gwariant ar lety'n cynnwys seroau, ond gwariant a bwysolwyd ar gyfer yr ymatebwyr hynny sy'n talu am lety **(rhai seiliau bach)**
'Gwariant gan bob oedolyn ar bob ymweliad' – mae gwariant ar lety'n cynnwys seroau. Mae'r ffigur ar gyfer cost llety am un noson.

**Cyfartaledd symiau'n sylweddol wahanol rhwng y cyfnodau gwahanol o ymchwil, ac ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaledd cyffredinol 2015**

### *3.3.9 Agweddau tuag at risg a diogelwch wrth ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru*

Ychwanegwyd cwestiwn newydd at y cyfnod diweddaraf o ymchwil, sy'n gwerthuso agwedd arferol ymatebwyr tuag at risg a diogelwch wrth ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru.

Cyflwynwyd rhestr o ddatganiadau iddynt a gofynnwyd iddynt pa ddatganiad oedd yn disgrifio eu hagwedd tuag at risg a diogelwch orau:

- *Nid wyf yn cymryd unrhyw ragofalon gan nad wyf yn gweld unrhyw risgiau o gerdded Llwybr Arfordir Cymru*
- *Nid wyf yn cymryd unrhyw ragofalon gan fy mod yn hapus i fyw gydag ychydig bach o risg*
- *Rwyf yn cymryd rhywfaint o ragofalon ac rwy'n hapus i fyw gydag ychydig bach o risg*
- *Rwyf yn cymryd yr holl ragofalon sydd eu hangen ac rwy'n teimlo'n ddiogel wrth gerdded.*

Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn cymryd rhagofalon pan oeddent yn defnyddio Llwybr Arfordir Cymru (65%); roedd tua chwarter yn cymryd rhai rhagofalon ac yn hapus byw hefyd gydag ychydig bach o risg (27%), ond roedd cyfran uwch o 38% yn cymryd yr holl ragofalon a oedd eu hangen i deimlo'n ddiogel wrth gerdded.

Nid oedd un ymatebwr o bob tri yn cymryd unrhyw ragofalon wrth ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru (35%); nid oedd y rhan fwyaf o'r rhain yn teimlo bod defnyddio'r llwybr yn peri unrhyw risg (26%), er i 9% ddweud eu bod yn hapus byw gyda rhywfaint o risg heb gymryd unrhyw ragofalon.

Ymatebwyr a gafodd eu cyfweld ar hyd llwybr arfordir y gogledd oedd y mwyaf tebygol i gymryd yr holl ragofalon sydd eu hangen er mwyn teimlo'n ddiogel (49%), gydag ymatebwyr yn defnyddio'r llwybr yng Ngwynedd (46%) ac Ynys Môn (43%) yn dilyn yn agos.

Ar y pegwn arall, ymatebwyr a gafodd eu cyfweld ar hyd rhannau o'r llwybr yn Sir Benfro oedd y mwyaf tebygol i beidio â chymryd unrhyw ragofalon gan nad oeddent yn gweld unrhyw risg wrth ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru (49%), gydag ymatebwyr yn defnyddio'r llwybr ar hyd arfordir y de yn dilyn yn agos (45%).

Roedd ymatebwyr oedd yn defnyddio'r llwybr mewn ardaloedd a ariennir gan yr UE yn fwy tebygol o gymryd yr holl ragofalon angenrheidiol er mwyn teimlo'n ddiogel o gymharu â'r rhai oedd yn defnyddio'r llwybr mewn ardaloedd nas ariennir gan yr UE (40% o gymharu â 27%) – gweler Tabl 7 am ragor o fanylion.

| **TABL 7:**<br><br>**Rhagofalon a gymerwyd wrth ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru**<br><br>**% ymatebwyr** | **Sail** (ymatebwyr) | **Dim rhagofalon – dim yn gweld unrhyw risg** | **Dim rhagofalon – yn fodlon byw gyda rhywfaint o risg** | **Rhywfaint o ragofalon – yn fodlon byw gyda rhywfaint o risg** | **Cymryd yr holl ragofalon er mwyn teimlo'n ddiogel** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm 2015** | (1,455) | 26 | 9 | 27 | 38 |
| | | | | | |
| **Arfordir y Gogledd** | (341) | 15 | 7 | 30 | 49 |
| **Ynys Môn** | (218) | 10 | 9 | 39 | 43 |
| **Gwynedd** | (126) | 10 | 4 | 40 | 46 |
| **Ceredigion** | (94) | 33 | 12 | 29 | 27 |
| **Sir Benfro** | (150) | 49 | 13 | 21 | 18 |
| **Bae Caerfyrddin a Gŵyr** | (221) | 29 | 12 | 23 | 36 |
| **Arfordir y De** | (305) | 45 | 6 | 12 | 37 |
| | | | | | |
| **A ariennir gan yr UE** | (1,177) | 23 | 9 | 28 | 40 |
| **Nas ariennir gan yr UE** | (278) | 45 | 8 | 20 | 27 |
| | | | | | |
| **Trefol** | (456) | 27 | 5 | 24 | 44 |
| **Gwledig** | (999) | 26 | 10 | 29 | 36 |

**Sgoriau sy'n sylweddol wahanol ar gyfer is-grwpiau o gymharu â chyfartaledd cyffredinol 2015**

Ffynhonnell: Q16
Seiliau mewn cromfachau: pob ymatebwr. Wedi'i ail-seilio i dynnu 'ddim yn gwybod' a rhai a wrthododd ymateb.

## ADRAN B: EFFAITH ECONOMAIDD CERDDED ARFORDIROL YNG NGHYMRU 2014

**NODER: Mae'r amcangyfrifon yn yr adran hon o niferoedd yr ymwelwyr a ddefnyddiodd Llwybr Arfordir Cymru'n seiliedig ar ganlyniadau arolygon presennol - Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr 2014 ac Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014.Mae'r ffigurau'n cynnwys yr holl gerdded ar yr arfordir, nid cerdded ar Lwybr Arfordir Cymru'n benodol yn unig. Gweler Atodiad A am wybodaeth ynglŷn â'r fethodoleg.**

### 1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn ystyried yr effaith economaidd a gaiff gwariant ymwelwyr sy'n gysylltiedig â cherdded arfordirol yng Nghymru ar economi Cymru. Byddai cyfran fawr o'r teithiau cerdded hyn wedi cynnwys cerdded ar Lwybr Arfordir Cymru i ryw raddau. Mae'r amcangyfrif o effaith economaidd yn cyfuno'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac yn nodi'r gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth a ddaw yn sgil gwariant gan ymwelwyr â Chymru sy'n cerdded ar yr arfordir.

Defnyddiwyd adnodd Uned Ymchwil Economi Cymru – Tablau Mewnbwn–Allbwn Cymru – i amcangyfrif yr effaith economaidd. Mae'r adnodd hwn yn modelu rhyngweithio masnachol cwmnïau a chyfranwyr economaidd eraill o fewn y rhanbarth ac yn darparu asesiad o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol gwariant ar sectorau sefydledig a seilwaith newydd.

***Ffynonellau effaith economaidd ymwelwyr sy'n cerdded arfordir Cymru a Llwybr Arfordir Cymru***

Mae nifer o heriau wrth fesur effaith economaidd gwariant gan ymwelwyr sy'n cerdded yr arfordir. Mae'r rhain yn cynnwys y ffaith bod cyfran gymharol uchel o wariant o'r fath yn digwydd yn siopau a lletyau trefi cyfagos, nid ar hyd yr arfordir neu ar Lwybr Arfordir Cymru ei hun. Yn ogystal, mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhannol yn nodwedd sy'n 'galluogi' ac sy'n darparu mynediad at safleoedd twristiaeth eraill, sy'n golygu y gall canfod effaith economaidd ar gyfer y llwybr ei hun fod yn waith heriol.

Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i leoliadau twristiaeth fel y llwybr gystadlu gydag ymyriadau traddodiadol y sector cyhoeddus ac ennill cefnogaeth barhaus. Yn y blynyddoedd diweddar, bu'n rhaid gwerthuso gwerth economaidd y llwybr er mwyn bodloni gofynion cyllido. Mae'r gwaith a gynhwysir yn yr adran hon yn dilyn astudiaethau blaenorol yn 2012 a 2013 ar effaith economaidd Llwybr Arfordir Cymru a gynhyrchwyd yn rhannol i fodloni anghenion o'r fath, gan nodi canlyniadau yn nhermau ardaloedd o arfordir Cymru a ariennir gan yr UE ac ardaloedd nas ariennir gan yr UE. Fodd bynnag, roedd data ar niferoedd yr ymwelwyr a ddefnyddiwyd yn yr amcangyfrifon hyn o effaith economaidd Llwybr Arfordir Cymru'n gyfyngedig i ddata a gasglwyd yn defnyddio cyfrifwr pobl, a oedd yn rhoi mesur cyffredinol ceidwadol iawn.

Mae'r astudiaeth hon yn archwilio'r gwariant a gynhyrchwyd gan bob ymweliad ag arfordir Cymru ar gyfer cerdded ac mae'n cynnwys amcangyfrif o'r holl ymwelwyr

wedi ei gasglu gan Gyfoeth Naturiol Cymru o ddata o ffynonellau swyddogol (gweler Atodiad A).

Prif nod ymchwil y gwaith hwn gan Ysgol Fusnes Caerdydd yw amcangyfrif effeithiau economaidd gwariant gan ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru ar economi Cymru. O ystyried y sylwadau uchod am yr effeithiau economaidd sy'n codi i ffwrdd o'r gyrchfan twristiaeth, bydd yr adroddiad hwn yn ymdrin â swyddogaeth yr arfordir o ran cyfrannu at yr effaith gyffredinol. Mae esboniadau technegol a'r fethodoleg ar gyfer yr astudiaeth yn Atodiad B.

Yn ogystal ag effeithiau o ran trosoli gwariant twristiaeth, mae'n bwysig cydnabod bod Llwybr Arfordir Cymru ei hun hefyd yn ymwneud â symiau sylweddol o wariant cyfalaf, i raddau helaeth ar weithgarwch adeiladu. Mae amcangyfrif o effaith y gwariant cyfalaf ar Lwybr Arfordir Cymru ar economi Cymru dros y flwyddyn ariannol 2014-15 yn gynwysedig yn atodiadau'r adroddiad hwn (gweler Atodiad C).

## 2. Diffiniadau

Gellir mesur effeithiau economaidd yn nhermau gwariant uniongyrchol, gwariant net, allbwn ychwanegol, gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth. Caiff y rhain eu hamlygu yn Nhabl 2.1.

**Tabl 2.1: Diffiniadau o Fesurau Effaith Economaidd**

| Mesur | Disgrifiad |
|---|---|
| *Gwariant Uniongyrchol* | Gwerth y nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu'n uniongyrchol gan ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru. |
| *Gwariant Net* | Gwerth y nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu'n uniongyrchol gan ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru ar ôl cyfrif trethi a mewnforion. |
| *Allbwn Ychwanegol* | Gwerth y nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu cynhyrchu yn yr economi leol o ganlyniad i wariant ymwelwyr sy'n cerdded y gellir ei briodoli i arfordir Cymru. |
| *Gwerth Ychwanegol Gros* | Dangosydd o werth y gweithgarwch sy'n cael ei gefnogi. Mae'n cynnwys cyflogau'n bennaf, ac elw cwmnïau. |
| *Cyflogaeth* | Nifer y swyddi a gynorthwyir yng Nghymru o ganlyniad i wariant ymwelwyr sy'n cerdded ar eu taith i arfordir Cymru.<br><br>Caiff y rhain eu cofnodi fel Cyfwerth ag Amser Llawn, mesur sy'n golygu trosglwyddo unrhyw swyddi rhan amser yn swyddi amser llawn cymharol (e.e. yn arferol mae dwy swydd rhan amser yn gyfwerth ag un swydd amser llawn). |

Cafodd buddiannau economaidd craidd gwariant ymwelwyr sy'n cerdded yr arfordir eu harchwilio'n defnyddio model effaith economaidd o Gymru sy'n amcangyfrif effeithiau anuniongyrchol y gwariant hwn (gweler Atodiad B am ragor o fanylion).

**Diffinio niferoedd ymwelwyr**

Ceir disgrifiad llawn o sut y cyfrifodd Cyfoeth Naturiol Cymru yr amcangyfrif ar gyfer niferoedd yr ymwelwyr a oedd yn cerdded ar arfordir Cymru yn Atodiad A. Yn yr amcangyfrif hwn, roedd pob dydd y daeth unigolyn ar daith i gerdded arfordir Cymru'n cyfrif fel un ymweliad.

Mae amcangyfrifon o niferoedd ymwelwyr yn ôl cyfrifiadau Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn deillio o'r ffynonellau data diweddaraf oedd ar gael, yn dangos 43.447 miliwn ymweliad ag arfordir Cymru at ddibenion cerdded yn 2014. Mae Tabl 2.2 yn dangos 37.877 miliwn ymweliad gan oedolion.

Canfu dadansoddiad o Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr (2014) gan Gyfoeth Naturiol Cymru (Atodiad A eto) fod canran yr ymweliadau ag ardaloedd a ariennir gan yr UE yn 78% (neu 29.544 miliwn o oedolion) a'r 22% sy'n weddill o'r ymweliadau ag ardaloedd nas ariennir gan yr UE yn cyfrif am 8.333 miliwn ymweliad gan oedolion.

**Tabl 2.2: Crynodeb o Niferoedd Ymwelwyr ag Arfordir Cymru 2014**

| | **Ymweliadau ar gyfer cerdded yr arfordir yng Nghymru (miliynau)** |
|---|---|
| Oedolion sy'n preswylio yn y DU – Teithiau dros dair awr o hyd | 14.861 |
| Oedolion sy'n preswylio yng Nghymru – Teithiau dan dair awr o hyd | 22.630 |
| Oedolion nad ydynt yn preswylio yn y DU | 0.386 |
| Ymweliadau gan blant yng nghwmni oedolion | 5.570 |
| **Cyfanswm ymweliadau** | **43.447** |
| *O'r rhain:* **Ymweliadau gan oedolion** | **37.877** |
| *Dadansoddiad o ymweliadau oedolion yn ôl ardal:* | |
| Ymweliadau oedolion ag ardal a ariennir gan yr UE (78% o'r cyfanswm) | **29.544** |
| Ymweliadau oedolion ag ardal nas ariennir gan yr UE (22% o'r cyfanswm) | **8.333** |

Er mwyn canfod sut y rhannwyd y cyfansymiau hyn rhwng ymwelwyr undydd ac ymwelwyr dros nos, defnyddiwyd data o Arolwg Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru 2015, a gynhaliwyd gan Beaufort Research (Ffigur 17 yn y *Dadansoddiad Arolwg Ymwelwyr*). Yma, nododd 44% o ymwelwyr ag ardal a ariennir gan yr UE, a 9% o ymwelwyr ag ardal nas ariennir gan yr UE, fod y teithiau hyn yn rhai dros nos.

Felly mae Tabl 2.3 isod yn dangos o'r 29.544 miliwn o ymweliadau gan oedolion yn 2014 i'r ardal o'r arfordir a ariennir gan yr UE ar gyfer cerdded bod 12.999 miliwn yn ymweliadau dros nos a bod 16.545 miliwn yn ymweliadau undydd gan oedolion; yn yr un modd, cafwyd amcangyfrif o 0.750 miliwn o ymweliadau dros nos gan oedolion a 7.583 miliwn o ymweliadau undydd gan oedolion yn yr ardal nas ariennir gan yr UE yn 2014.

**Tabl 2.3: Niferoedd yr ymwelwyr yn cerdded arfordir Cymru yn ôl math o ymweliad 2014**

| | Ymweliadau gan oedolion ar gyfer cerdded ar yr arfordir (miliynau) | % Aros dros nos | Ymweliadau dros nos gan oedolion ar gyfer cerdded ar yr arfordir (miliynau) | Ymweliadau undydd gan oedolion ar gyfer cerdded yr arfordir (miliynau) |
|---|---|---|---|---|
| Ardal a ariennir gan yr UE | 29.544 | *44* | 12.999 | 16.545 |
| Ardal nas ariennir gan yr UE | 8.333 | *9* | 0.750 | 7.583 |
| **Cyfanswm** | **37.877** | | **13.749** | **24.128** |

## 3. Mesurau o effaith

**Noder: Mae'r adran hon yn seiliedig ar wariant taith gyfan. Gweler Atodiad E am wybodaeth yn ymwneud â gwariant ar y llwybr yn unig.**

Yn yr adran hon, rydym yn casglu canfyddiadau o'r dadansoddiad o ffynonellau'r arolwg (a ddisgrifir yn gryno uchod ac yn fanwl yn Atodiad B) at ei gilydd. Gan ddefnyddio'r ffynonellau hyn, rydym yn amcangyfrif y gwariant uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr sy’n cerdded ar arfordir Cymru, ac yna'n amcangyfrif yr effeithiau economaidd anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r gwariant hwn.

### 3a. Gwariant uniongyrchol

***Teithiau undydd***

Mae data o Arolwg Llwybr Arfordir Cymru 2015 gan Beaufort Research, ac a nodir uchod yn Adran A, Tabl 6 (panel gwaelod), yn dangos mai £4.49 oedd gwariant cymedrig pob oedolyn ar bob ymweliad yn yr ardaloedd a ariennir gan yr UE a £2.87 yn yr ardaloedd nas ariennir gan yr UE. Yma cafodd gwariant y daith gyfan ar ddiwrnod eu hymweliad (gan gynnwys gwariant ar hyd y llwybr yn ogystal â chostau

tanwydd i'r arfordir ac yn ôl, parcio, bwyd a diod, a chofroddion) ar gyfer pob grŵp ei adio a'i rannu gyda nifer yr oedolion yn y grŵp. (Mae cymhariaeth o newidiadau yng ngwariant cyfartalog pob ymweliad gan oedolyn rhwng arolygon Llwybr Arfordir Cymru 2013 a 2015 yn gynwysedig yn Atodiad D yr adroddiad hwn.)

Yna cyfrifwyd crynswth y ffigurau gwariant 'cyfartalog gan bob oedolyn ar bob ymweliad' hyn gyda chyfanswm nifer blynyddol yr ymweliadau undydd y gellir eu priodoli i gerdded ar arfordir Cymru i ganfod gwariant blynyddol gros ar gyfer y teithiau hyn. Mae Tabl 3.1 yn dangos bod rhyw £96.1 miliwn o wariant uniongyrchol i'w briodoli i ymwelwyr yn cerdded ar arfordir Cymru.

**Tabl 3.1: Gwariant uniongyrchol gan oedolion yn cerdded yr arfordir ar daith undydd i Gymru (2014)**

| | Gwariant cyfartalog ymweliad undydd gan bob oedolyn (£) | Ymweliadau undydd gan oedolion ar gyfer cerdded yr arfordir (miliynau) | Gwariant uniongyrchol ar gyfer ymweliadau undydd (£m) |
|---|---:|---:|---:|
| Ardal a ariennir gan yr UE | 4.49 | 16.545 | 74.3 |
| Ardal nas ariennir gan yr UE | 2.87 | 7.583 | 21.8 |
| Cyfanswm | **3.98** | **24.128** | **96.1** |

***Teithiau dros nos***

Ar gyfer oedolion ar ymweliad i gerdded arfordir Cymru a oedd yn aros dros nos, roedd angen canfod gwariant cyfartalog ar gyfer pob oedolyn ar gyfer pob ardal. Er mwyn cyfrifo cyfran y gwariant y gellid ei briodoli i gerdded arfordir Cymru (yn hytrach nac atyniadau eraill i ymwelwyr y gall y twristiaid fod wedi ymweld â nhw), rhagdybiwyd bod gwariant un noson ar gyfer pob taith yn ymwneud â cherdded yr arfordir (amcangyfrif ceidwadol).

Mae data o Arolwg Llwybr Arfordir Cymru 2015 gan Beaufort Research, ac a nodir uchod yn Adran A, Tabl 6 (panel gwaelod), yn dangos mai £12.24 oedd gwariant cyfartalog pob oedolyn ar bob ymweliad yn yr ardaloedd a ariennir gan yr UE ar nwyddau a gwasanaethau (ac eithrio llety) a £19.92 ar gostau llety. Mae adio'r ddau gyfanswm hyn gyda'i gilydd yn dangos cyfanswm gwariant o £32.16 ar gyfer pob oedolyn ar bob ymweliad dros nos. Y gwariant cyfatebol ar gyfer ardaloedd nas ariennir gan yr UE oedd £43.37 (£22.74 ar nwyddau a gwasanaethau nad oeddent yn llety, a £20.63 ar lety). Trwy gyfrifo crynswth y ffigurau hyn gydag amcangyfrifon o ymweliadau blynyddol i'r ardaloedd hyn (trydedd golofn Tabl 3.2), dangosir bod cyfraniad o £450.5 miliwn wedi ei wario trwy ymweliadau dros nos i gerdded arfordir Cymru yn 2014.

**Tabl 3.2:** Gwariant uniongyrchol gan oedolion yn cerdded yr arfordir a arhosodd dros nos oddi cartref yng Nghymru (2014)

| | Gwariant dros nos cyfartalog gan bob oedolyn (£) | Niferoedd yr unigolion yn aros dros nos (miliynau) | Gwariant uniongyrchol ar ymweliadau dros nos (£ miliynau) |
|---|---|---|---|
| Ardal a ariennir gan yr UE | 32.16 | 12.999 | 418.0 |
| Ardal nas ariennir gan yr UE | 43.37 | 0.750 | 32.5 |
| Cyfanswm | **32.77** | **13.749** | **450.5** |

***<u>Crynodeb o wariant uniongyrchol gan ymwelwyr yn cerdded arfordir Cymru 2014</u>***

Cafodd cyfanswm nifer yr ymwelwyr yn cerdded yr arfordir a'u gwariant cysylltiedig eu cyfrifo o'r data a amlinellir uchod ac sy'n cael ei grynhoi yn Nhabl 3.3. Amcangyfrifir bod y gwariant uniongyrchol cysylltiedig â'r 37.877 miliwn o ymweliadau gan oedolion ar gyfer cerdded arfordir Cymru yn 2014 oddeutu £546.6 miliwn. Amcangyfrifwyd bod gwariant yn yr ardal a ariennir gan yr UE yn £492.3 miliwn a gwariant yn yr ardal nas ariennir gan yr UE yn £54.3 miliwn.
*Rydym wedi darparu amcanbwyntiau'n seiliedig ar y data sydd ar gael yma, ond mae'n fwy tebygol y byddai amrediad o ganlyniadau economaidd yn fwy synhwyrol, h.y.10-15% y naill ochr i'r gwerthoedd a nodir.*

**Tabl 3.3: Cyfanswm ymwelwyr a gwariant uniongyrchol gan ymwelwyr yn cerdded arfordir Cymru 2014**

| Ardal | Nifer oedolion (miliynau) | Gwariant cyfartalog gan bob oedolyn ar bob ymweliad (£) | Cyfanswm gwariant uniongyrchol cysylltiedig â cherddded arfordir Cymru (£m) |
|---|---|---|---|
| Teithiau undydd ardal a ariennir gan yr UE | 16.545 | 4.49 | 74.3 |
| Teithiau dros nos ardal a ariennir gan yr UE | 12.999 | 32.16 | 418.0 |
| Cyfanswm ardal a ariennir gan yr UE | ***29.544*** | ***16.66*** | ***492.3*** |
| Teithiau undydd ardal nas ariennir gan yr UE | 7.583 | 2.87 | 21.8 |
| Teithiau dros nos ardal nas ariennir gan yr UE | 0.750 | 43.37 | 32.5 |
| Cyfanswm ardal nas ariennir gan yr UE | ***8.333*** | ***6.52*** | ***54.3*** |
| CYFANSWM ARFORDIR CYMRU | **37.877** | **14.43** | **546.6** |

Defnyddir y ffigurau yn Nhabl 3.3 ar gyfer sail y dadansoddiad o'r effeithiau a gaiff y lefel hon o ddefnydd twristiaeth ar yr economi gyfan.

### 3b. Gwariant net

Amcangyfrifir mai £546.6 miliwn oedd gwariant uniongyrchol ymwelwyr ag arfordir Cymru ar gyfer gweithgareddau cerdded yn 2014. Mae rhywfaint o'r gwariant hwn ar nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu mewnforio i economi Cymru, ac mae rhywfaint yn 'diferu' allan o'r economi ar ffurf trethi.

I ddechrau, cafwyd gostyngiad yn y ffigur gwariant uniongyrchol (£546.6 miliwn) ar gyfer diferion fel trethi (gan gynnwys TAW), a gwariant ar nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu mewnforio i Gymru. Er enghraifft, gyda nwyddau sy'n gysylltiedig â cherdded sydd wedi cael eu prynu yng Nghymru ond wedi eu cynhyrchu mewn gwledydd eraill (siacedi ac esgidiau yn nodweddiadol), dim ond elfen fach o'r gwariant cysylltiedig sy'n debygol o gael ei chadw yn y rhanbarth. Yma dim ond maint yr elw manwerthu fydd yn cael ei gadw yng Nghymru.

Defnyddiwyd Is-gyfrif Twristiaeth Cymru i lywio lefelau'r gogwyddiadau mewnforio. Mae Model Cynllunio Effaith Twristiaeth Cymru yn dangos, ar gyfer ymwelwyr undydd yn y rhanbarth, bod oddeutu 35% o'u gwariant ar nwyddau a gwasanaethau wedi eu mewnforio o weddill y byd (y tu allan i'r DU) a threthi cynhyrchu. Felly mae'r arian hwn yn diferu o'r cyfrifiadau ar gyfer amcangyfrif effaith ymwelwyr sy’n cerdded ar arfordir Cymru ar economi Cymru. Yn yr un modd, dengys Model Cynllunio Effaith Twristiaeth Cymru bod oddeutu 25% o'r arian sy'n cael ei wario gan ymwelwyr dros nos yn diferu allan o economi Cymru (oherwydd gwariant ar nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn dod o Gymru, neu oherwydd trethi). Amcangyfrifwyd bod y diferion hyn (trethi a mewnforion uniongyrchol) oddeutu £146 miliwn.

Unwaith i'r diferion hyn gael eu tynnu, mae'r gwariant net o £401 miliwn sy'n weddill yn chwistrelliad i economi Cymru, y gall busnesau sy'n derbyn yr arian hwn ei ail-wario wedyn mewn rowndiau anuniongyrchol dilynol (e.e. mae darparwyr llety'n prynu nwyddau a gwasanaethau gan sectorau eraill Cymru i ddiwallu anghenion eu hymwelwyr, gan achosi i'r cyflenwyr hyn wedyn brynu cynnyrch o lefydd eraill, ac yn y blaen). Mae'r cynnydd a ddaw yng nghynnyrch darparwyr lleol yn sgil hyn yn cynyddu cyfoeth lleol, sydd yn ei dro'n arwain at gynnydd yn y lefelau gwariant.

### 3c. Allbwn ychwanegol

Caiff yr effaith economaidd gyffredinol ei diffinio yn nhermau newidiadau mewn allbwn ychwanegol, gwerth ychwanegol gros (incymau), a chyflogaeth sy'n deillio yn yr economi. Mae maint yr effeithiau hyn yn dibynnu i ba raddau y caiff chwistrelliadau i'r economi eu cadw'n rhanbarthol (felly po fwyaf y bydd y gogwydd tuag at wario ar nwyddau a gwasanaethau wedi'u mewnforio, lleiaf y bydd y chwistrelliadau hyn sy’n cael eu cadw o fewn economi Cymru). Caiff hwn ei fynegi'n rhifiadol gan y cyfernod lluosydd. Po isaf yw gallu'r economi leol i gwrdd â'r galw am nwyddau a gwasanaethau, yr uchaf yw'r diferion (gan fod gwariant ar fewnforion), a'r isaf yw'r lluosydd.

Mae Tabl 3.4 yn dangos effaith tymor byr gwariant sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru ar gynnyrch ychwanegol yn economi Cymru. Arweiniodd y gweithgareddau hyn at £540.9 miliwn o gynnyrch ychwanegol.

**Tabl 3.4: Effaith economaidd gwariant ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru (2014), allbwn ychwanegol**

| | Ardal a ariennir gan yr UE | Ardal nas ariennir gan yr UE | Cyfanswm Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Allbwn ychwanegol (£ miliynau) | 493.2 | 47.7 | 540.9 |

## 3d. Gwerth ychwanegol gros

Mae rhywfaint o'r allbwn ychwanegol hwn nad yw'n ychwanegu at gyflogaeth nac incymau yng Nghymru – er enghraifft, cost mewnbwn nwyddau a gwasanaethau. Mae'r mesur gwerth ychwanegol gros felly'n fetrig mwy priodol ar gyfer effaith economaidd ranbarthol.

Dengys Tabl 3.5 bod yr allbwn ychwanegol yn yr economi ranbarthol yn gysylltiedig â £271.4 miliwn o werth ychwanegol gros (ystyrir mai gwerth ychwanegol gros yw'r mesurydd mwyaf priodol o wir werth gweithgarwch economaidd, gan adio incymau a enillir yn lleol, elw cwmnïau a rhai trethi).

**Tabl 3.5: Effaith economaidd gwariant ymwelwyr sy'n cerdded arfordir Cymru (2014), gwerth ychwanegol gros**

| | Ardal a ariennir gan yr UE | Ardal nas ariennir gan yr UE | Cyfanswm Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Gwerth ychwanegol gros (£ miliynau) | 247.8 | 23.6 | 271.4 |

## 3e. Cyflogaeth

Mae'r amcangyfrif dangosol o'r effaith y gallai gwariant gan ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru ei chael ar gyflogaeth yn 2014 oddeutu 12,320 o swyddi cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn.

**Tabl 3.6: Effaith economaidd gwariant ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru (2014)**

| | Ardal a ariennir gan yr UE | Ardal nas ariennir gan yr UE | Cyfanswm Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Cyflogaeth (cyfwerth ag amser llawn) | 11,270 | 1,050 | 12,320 |

### 3f. Effaith economaidd yn ôl sector diwydiannol yng Nghymru

Mae Tabl 3.7 yn dangos effaith amcangyfrifedig gwariant sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr yn cerdded ar arfordir Cymru wedi ei rhannu yn ôl sector diwydiannol yng Nghymru ar gyfer 2014. Roedd yr effaith i'w gweld fwyaf yn y diwydiant llety (£88.9 miliwn o werth ychwanegol gros) a bwytai/bariau/caffis (£39.7 miliwn o werth ychwanegol gros).

Dylid nodi'n benodol nad sectorau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â thwristiaid yn unig, fel y diwydiant llety, sy'n profi effeithiau gwariant ymwelwyr ag arfordir Cymru. Mae Tabl 3.7 yn dangos bod gwariant ymwelwyr wedi cefnogi gweithgareddau yn y diwydiant trafnidiaeth/cyfathrebu (£30.7 miliwn o werth ychwanegol gros) a gwasanaethau busnes (£30.4 miliwn o werth ychwanegol gros).


**Tabl 3.7: Effaith economaidd ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru (2014), dadansoddiad yn ôl sector diwydiannol**

| Sector | | | |
|---|---|---|---|
| | Allbwn (£m) | Gwerth Ychwanegol Gros (£m) | Cyfwerth ag amser llawn |
| Sectorau gweithgynhyrchu | 85.2 | 21.8 | 495 |
| Dosbarthu/Manwerthu | 68.4 | 37.0 | 1,495 |
| Llety | 150.5 | 88.9 | 4,945 |
| Bwytai ayyb | 72.7 | 39.7 | 2,390 |
| Trafnidiaeth a Chyfathrebu | 67.8 | 30.7 | 1,175 |
| Gwasanaethau Ariannol a Busnes | 51.4 | 30.4 | 685 |
| Sector cyhoeddus | 5.9 | 3.1 | 105 |
| Hamdden ayyb | 28.0 | 14.9 | 725 |
| Pob diwydiant arall | 11.0 | 4.9 | 305 |
| CYFANSWM | **540.9** | **271.4** | **12,320** |

### 3g. Crynodeb: Effeithiau ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru ar yr economi gyfan

I grynhoi'r hyn a nodir uchod, mae Ffigur 3.1 yn dangos yr hyn sy'n digwydd i'r cyfanswm gwariant uniongyrchol dechreuol wrth iddo gael ei fodelu i amcangyfrif effaith anuniongyrchol gwariant ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru.

**Ffigur 3.1 Sut mae gwariant uniongyrchol gan ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru yn cael ei drosglwyddo'n effeithiau**



## ATODIAD A: METHODOLEG AR GYFER AMCANGYFRIF NIFER YR YMWELWYR A OEDD YN CERDDED AR ARFORDIR CYMRU YN 2014

### 1. Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn esbonio sut rydym wedi amcangyfrif nifer yr ymweliadau ag arfordir Cymru yn 2014 a oedd yn cynnwys cerdded fel gweithgaredd.

Dylid nodi bod y ffigurau'n cynnwys yr holl weithgareddau cerdded ar arfordir Cymru, nid y rhai ar Lwybr Arfordir Cymru'n unig. Fodd bynnag, mae'n rhesymol tybio bod mwyafrif sylweddol y gweithgareddau cerdded arfordirol, yn rhannol o leiaf, ar Lwybr Arfordir Cymru. Beth bynnag, rydym yn credu ei bod yn fwy defnyddiol i amcangyfrif cyfanswm cyfraniad cerdded arfordirol i economi Cymru yn hytrach na'i gyfyngu i'r coridor llinol cul y mae Llwybr Arfordir Cymru'n dechnegol yn rhedeg ar ei hyd.

Oni nodir fel arall, mae'r holl ffigurau'n cyfeirio at nifer yr ymweliadau, nid nifer yr unigolion gwahanol. Bydd llawer o bobl yn ymweld sawl gwaith. Er enghraifft:

- mae unigolyn yn cerdded ar yr arfordir ar ddau ddiwrnod gwahanol yn cyfrif fel dau ymweliad
- bydd grŵp o bedwar yn ymweld ar dri diwrnod gwahanol yn cyfrif fel 12 ymweliad.

Dylid hefyd pwysleisio ein bod wedi ymdrechu i amcangyfrif POB ymweliad, gan gynnwys ymweliadau o gartref, o'r gwaith, ar wyliau, neu o lety dros dro arall.
Y bwriad oedd cynhyrchu amcangyfrif amddiffynadwy, felly, fel yr esbonnir isod, lle y ceir amheuaeth, rydym wedi tueddu i danamcangyfrif.

### 2. Ffynhonnell y data

Yn anffodus, nid oes un ffynhonnell data perthnasol unigol. O ganlyniad, mae'r amcangyfrifon wedi cael eu cyfrifo o ystadegau sy'n deillio o dri arolwg:
1. Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr 2014
2. Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014
3. Arolwg Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru 2015

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r arolygon hyn, gweler diwedd yr atodiad hwn.

## 3. Amcangyfrif o ymweliadau ar deithiau dros dair awr o hyd (oedolion sy'n preswylio yn y DU)

**Amcangyfrif: 14.861 miliwn o ymweliadau**
**Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr 2014**

### 3.1. Detholiadau perthnasol

Rydym wedi cynnwys ymweliadau a ddiffinnir yn Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr fel 'ymweliadau hamdden undydd 3+ awr' os ydynt yn bodloni **pob un o'r tri** maen prawf canlynol:

- Ardal yr ymwelwyd â hi: Cymru
- Math o le yr ymwelwyd ag ef: 'Glan y môr / Arfordir' (sy'n cynnwys tair isadran o gyrchfan neu dref glan y môr, arfordir glan y môr – traeth ac arfordir glan y môr arall).
- Gweithgaredd a gyflawnwyd: Cerdded (sy'n cynnwys tair isadran o gerdded o ganolfan, taith gerdded neu grwydr hir (isafswm o ddwy filltir/un awr) a thaith gerdded/tro byr – hyd at ddwy filltir/un awr).

### 3.2. Ystyriaethau

3.2.1. Y daith gyfan, gan gynnwys amser teithio, sydd dros dair awr, nid yr amser a dreulir yn cerdded ar yr arfordir yn unig.

3.2.2. Rhestrodd rhai ymatebwyr fwy nag un 'math o le' yr ymwelwyd ag ef ar daith unigol. Mewn achosion o'r fath, nid yw'n bosib pennu ym mha 'fath o le' y digwyddodd y gweithgaredd cerdded. Felly, mae'r amcangyfrif yn yr adroddiad hwn yn gyfyngedig i ymweliadau lle y nodwyd mai 'Glan y môr / Arfordir' yw'r unig gyrchfan.

3.2.3. Hefyd roedd 3.761 miliwn o deithiau lle rydym yn gwybod bod pobl wedi ymweld â'r arfordir a lle'r oedd cerdded yn weithgaredd, ond oherwydd bod pobl wedi ymweld â 'mathau o le' eraill hefyd, nid oedd yn bosibl dweud yn gadarn bod y gweithgaredd cerdded wedi digwydd ar yr arfordir. Felly, mae'r rhain wedi cael eu heithrio o'r amcangyfrif.

## 4. Amcangyfrif o ymweliadau ar deithiau dan dair awr o hyd (oedolion sy'n preswylio yng Nghymru)

**Amcangyfrif: 22.630 miliwn o ymweliadau**
**Ffynhonnell: Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014**

### 4.1. Detholiadau perthnasol

Nid yw ymweliadau wedi cael eu cynnwys oni bai eu bod yn bodloni **pob un o'r tri** maen prawf Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru canlynol:

- Prif weithgaredd: Cerdded
- Prif gyrchfan: Traeth, Môr neu Arfordir Arall
- Hyd: Dan dair awr

### 4.2. Ystyriaethau

4.2.1. Y daith gyfan, gan gynnwys amser teithio, sydd dan dair awr, nid yr amser a dreulir yn cerdded ar yr arfordir yn unig.

4.2.2. Dim ond ymweliadau gan oedolion sy'n preswylio yng Nghymru sy'n cael eu cynnwys yn Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, gan gynnwys ymweliadau â lleoliadau y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, dim ond 3% o'r cyfanswm yw'r amcangyfrif o ymweliadau arfordirol y tu allan i Gymru gan breswylwyr yng Nghymru (ffynhonnell TNS o Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2011).
Ar y llaw arall, bydd rhai ymweliadau dan dair awr hefyd gan ymwelwyr nad ydynt yn preswylio yng Nghymru. Oherwydd diffyg data, nid yw'r rhain wedi cael eu cynnwys yn benodol ond byddant yn gwrthbwyso'r 3% a nodir uchod.

Fodd bynnag, rydym wedi rhagdybio, o ystyried natur fer iawn yr ymweliadau (dan dair awr, gan gynnwys amser teithio), bod mwyafrif sylweddol yr ymweliadau ag arfordir Cymru gan breswylwyr o Gymru.

4.2.3. Fel gydag Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr, nid yw'n bosibl pennu lle digwyddodd gweithgaredd os bu i bobl ymweld â mwy nag un 'math o le' ar un daith. Fodd bynnag, gofynnir i ymatebwyr nodi 'prif weithgaredd' a 'phrif gyrchfan'. Eto, o ystyried natur fer iawn yr ymweliadau (dan dair awr, gan gynnwys amser teithio), rhagdybiwyd bod y 'brif weithgaredd' (cerdded) wedi digwydd yn y 'brif gyrchfan' (traeth, môr neu arfordir arall). Er y bydd hyn, ynddo'i hun, yn arwain at fymryn o oramcangyfrif, caiff ei wrthbwyso'n sylweddol trwy eithrio ymweliadau â chyrchfannau lluosog lle nad yw'n bosibl pennu lle y digwyddodd y cerdded.

## 5. Oedolion nad ydynt yn preswylio yn y DU

**Amcangyfrif: 386,000 o ymweliadau**
**Ffynhonnell: Cyfrifiad yn defnyddio data gan Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr ac Arolwg Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru**

Nid yw Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr yn cynnwys ymweliadau gan ymwelwyr nad ydynt yn preswylio ym Mhrydain. Fodd bynnag, rydym yn gwybod o Arolwg Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru bod 2.53% o ymweliadau gan oedolion gan ymwelwyr nad ydynt yn preswylio yn y DU ac mae cyfanswm y ffigurau ar gyfer oedolion ar ymweliad dros dair awr wedi cael ei addasu'n unol â hynny. Nid yw ffigurau ar gyfer oedolion ar ymweliad dan dair awr sydd, fel yr esboniwyd uchod, yn cynnwys preswylwyr o Gymru yn unig, wedi cael eu haddasu.

## 6. Ymweliadau gan blant (15 oed ac iau) yng nghwmni oedolion

**Amcangyfrif: 5.570 miliwn o ymweliadau**
**Ffynhonnell: Cyfrifiad yn defnyddio data gan Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr ac Arolwg Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru**

Yn yr un modd, nid yw ffigurau ymweliadau Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr nac Arolwg Ymweliadau Llwybr Arfordir Cymru'n cynnwys plant. Fodd bynnag, rydym yn gwybod o Arolwg Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru bod 12.82% o ymweliadau gan blant yng nghwmni oedolion. Gellir defnyddio'r ganran hon yn yr amcangyfrif o gyfanswm yr ymweliadau gan oedolion.

Nid yw plant (15 oed ac iau) nad ydynt yng nghwmni oedolion wedi cael eu cynnwys yn unrhyw un o'r arolygon ac felly maent wedi cael eu heithrio.

## 7. Rhaniad rhwng ardaloedd cydgyfeirio / ardaloedd nad ydynt yn rhai cydgyfeirio

**Amcangyfrif: 78% / 22%**
**Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata cerdded arfordirol Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr ar lefel awdurdod lleol**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfeiriad at yr awdurdodau lleol arfordirol hynny a dderbyniodd gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer datblygu Llwybr Arfordir Cymru rhwng 2009 a 2013 (ardaloedd cydgyfeirio) a'r rhai na dderbyniodd gyllid (ardaloedd nad ydynt yn rhai cydgyfeirio). Mae'r rhaniad canrannol wedi cael ei amcangyfrif trwy ddadansoddi data ar lefel awdurdod lleol o Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr yn defnyddio'r un meini prawf a ddefnyddiwyd yn Adran 3.1 uchod. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau meintiau sail cadarn, mae'n cynnwys yr holl ymweliadau arfordirol a oedd yn cynnwys cerdded fel gweithgaredd – hyd yn oed, mewn lleiafrif o achosion, os yw'r cerdded wedi digwydd mewn 'math o le' arall yr ymwelwyd ag ef ar yr un daith.

## 8. Gwybodaeth bellach am arolygon ffynhonnell

Caiff adroddiadau Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr ac Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru eu categoreiddio fel ystadegau swyddogol ac maent wedi cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan Awdurdod Ystadegau'r DU.

8.1. Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr 2014
Nod Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr, a gynhaliwyd gan TNS ar ran Croeso Cymru, Visit England a Visit Scotland, yw mesur niferoedd, gwerth a phroffil pob taith undydd gan ymwelwyr sy'n preswylio ym Mhrydain â chyrchfannau yn y DU.

Adroddiad llawn: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150901-great-britain-day-visitor-2014-en.pdf

8.2. Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014
Mae'r arolwg hwn, a gynhaliwyd gan TNS ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru, yn darparu gwybodaeth am gyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden awyr agored gan oedolion sy'n byw yng Nghymru.
Adroddiad llawn: https://naturalresources.wales/media/4757/wales-outdoor-recreation-survey-2014-final-report.pdf

8.3. Arolwg Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru 2015
Mae'r arolwg hwn, a gynhaliwyd gan Beaufort Research ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru, yn casglu gwybodaeth, trwy arolygon wyneb yn wyneb, gan ymwelwyr â Llwybr Arfordir Cymru.

## 9. Cydnabyddiaethau

Diolch i Duncan Stewart a Shelly Sneddon yn TNS am gyflenwi ffigurau Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr ac Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru sy'n ychwanegol at y data Arolwg Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

## ATODIAD B: ASESIAD O'R EFFAITH ECONOMAIDD – ESBONIADAU TECHNEGOL A METHODOLEG

### B1 Gwahanol fathau o effeithiau economaidd rhanbarthol

Archwiliwyd buddiannau economaidd craidd gwariant ymwelwyr sy'n cerdded yr arfordir yn defnyddio model effaith economaidd Cymru sy'n amcangyfrif:

> ***Allbwn uniongyrchol o Gymru, gwerth ychwanegol gros ac effeithiau cyflogaeth.*** Mae'r rhain yn cynnwys yr effeithiau sy'n cael eu cefnogi'n uniongyrchol gan wariant ymwelwyr ag arfordir Cymru, er enghraifft wrth i ymwelwyr brynu bwyd a diod, a thalu am lety, parcio a chofroddion ac ati.
>
> ***Allbwn anuniongyrchol o Gymru, gwerth ychwanegol gros ac effeithiau cyflogaeth.*** Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau ar y gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Mae gwariant uniongyrchol yn cefnogi gweithgarwch economaidd yng Nghymru yn anuniongyrchol, gan fod angen cynnyrch o ddiwydiannau eraill yng Nghymru i gwrdd â gwariant gan ymwelwyr. Er enghraifft, pan fydd ymwelwyr yn aros mewn gwely a brecwast/gwesty lleol, mae'r darparwr llety'n prynu gan fanwerthwyr a chyfanwerthwyr lleol er mwyn darparu cynhwysion ar gyfer prydau bwyd i westeion. Mae'r ffynonellu rhanbarthol hwn yn ei dro'n arwain at wario rhanbarthol pellach gan y cwmnïau hyn, er enghraifft mewn ffermydd lleol. Mae graddau effaith y cyflenwyr hyn yn dibynnu ar lefel ffynonellu o Gymru ar gyfer y sector penodol ac ar lefelau ffynonellu rhanbarthol gan gyflenwyr y sector hwnnw.
>
> ***Allbwn ysgogedig Cymru, gwerth ychwanegol gros ac effeithiau cyflogaeth.*** Mae'r rhain yn cynnwys y buddiannau i'r economi a ddaw yn sgil gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol ychwanegol wrth i gyflogau gael eu gwario ar nwyddau a gwasanaethau mewn rhannau eraill o'r economi.

### B2 Model Economaidd Cymru

Er mwyn amcangyfrif yr effeithiau economaidd anuniongyrchol, mae angen cael 'darlun' o economi Cymru sy'n nodi sut mae sectorau diwydiannol amrywiol Cymru'n 'mynd gyda'i gilydd' yn nhermau eu perthnasau masnachu. Mae hwn wedyn yn caniatáu i effeithiau gwariant a gweithgarwch cyflogaeth mewn un sector gael eu dilyn trwy'r economi leol gyfan.


Tablau mewnbwn–allbwn sy'n rhoi'r darlun mwyaf cynhwysfawr o economi. Mae'r tablau hyn yn dangos trafodion rhwng gwahanol sectorau'r economi leol a thu hwnt. Yn ogystal â bod yn ddull disgrifiadol pwysig, gellir defnyddio'r tablau mewnbwn–allbwn ar gyfer modelu economaidd ac ar gyfer asesu effaith. Mae tablau mewnbwn–allbwn yng Nghymru yn gynnyrch prosiect ymchwil parhaus yn Uned Ymchwil Economi Cymru i ddatblygu darlun cynhwysfawr o economi Cymru, a'r ffordd y mae'n

newid dros amser. Mae'r tablau diweddaraf yn rhannu economi Cymru'n 81 sector cynhyrchu gwahanol.

Defnyddir Model Cynllunio Effaith Twristiaeth, a ddatblygwyd gan Uned Ymchwil Economi Cymru, i amcangyfrif y gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth y gellid eu cefnogi gan wariant ymwelwyr. Mae'r Model Cynllunio Effaith Twristiaeth yn fodiwl o dablau mewnbwn–allbwn Cymru sy'n canolbwyntio ar yr effeithiau economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â gwariant ymwelwyr ar yr economi. Am ragor o wybodaeth, gweler: http://www.cardiff.ac.uk/research/impact-and-innovation/research-impact/understanding-the-economic-and-environmental-impacts-of-tourism-in-wales

Mae Ffigur B1 yn rhoi darluniad amlinellol syml o'r dull methodolegol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon.

**Ffigur B1 Crynodeb o Ddull: Amcangyfrif o Effaith Economaidd yng Nghymru**




## B3 Ffynonellau data

Cafodd amcangyfrifon o niferoedd yr ymwelwyr eu cyfuno â data gan arolygon ymwelwyr a gwaith modelu o effeithiau anuniongyrchol gwariant ymwelwyr er mwyn mesur effaith economaidd gyffredinol cerddwyr arfordir Cymru. Darparwyd yr amcangyfrifon o niferoedd yr ymweliadau ag arfordir Cymru ar gyfer gweithgareddau cerdded gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

**Ffigur B2 Ffynonellau data i lywio effeithiau economaidd 'uniongyrchol' gwariant gan gerddwyr arfordir Cymru**

| **Arolwg Ymwelwyr** | | **Data Niferoedd Ymwelwyr** |
|---|---|---|
| Cwblhaodd Beaufort Research 1,483 o holiaduron gydag ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru rhwng mis Hydref 2014 a mis Ionawr 2016. | + | Cynhyrchodd Cyfoeth Naturiol Cymru amcangyfrif o niferoedd yr ymweliadau â Llwybr Arfordir Cymru trwy ddefnyddio data gan Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr, Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, ac Arolwg Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru 2015 Beaufort Research. |

## ATODIAD C: EFFEITHIAU GWARIANT CYFALAF AR LWYBR ARFORDIR CYMRU

### EFFEITHIAU GWARIANT CYFALAF AR LWYBR ARFORDIR CYMRU (ARDAL A ARIENNIR GAN YR UE)

Yn ogystal ag effeithiau o ran trosoli gwariant twristiaeth, mae'n bwysig cydnabod bod Llwybr Arfordir Cymru ei hun hefyd yn ymwneud â symiau sylweddol o wariant cyfalaf, i raddau helaeth ar weithgarwch adeiladu. Dylid cynnwys amcangyfrifon o gynnyrch a chyflogaeth a gefnogwyd yn ystod gweithgarwch datblygiadol mewn gwerthusiad mwy cyffredinol o'i effaith. Yn arbennig, nodir bod gweithgarwch prosiectau dewisol wedi digwydd mewn rhannau o'r economi ranbarthol sy'n fwy anghenus, i'r graddau y gallai cyflogaeth ac incymau sy'n cael eu cefnogi gan waith adeiladu gael effeithiau pwysig yn lleol.

Hefyd, mae tystiolaeth gan brosiectau blaenorol a gawsant eu gwerthuso gan dîm Prifysgol Caerdydd yn ymwneud ag asedau amgylcheddol yn dangos bod natur contractau adeiladu a ddyfernir yn gyffredinol yn cefnogi cwmnïau a swyddi lleol yn hytrach na sefyllfaoedd lle dyfernir contractau y tu allan i'r economi ranbarthol ac economi gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Pwysleisir mai amcangyfrif sy'n dilyn o'r gyflogaeth a gwerth ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwariant cyfalaf Llwybr Arfordir Cymru (yr ardal a ariennir gan yr UE) o 2014-15. Nodir yr amcangyfrifon yn Nhabl C1 fel amrediad yn seiliedig ar wahanol ragdybiaethau ffynonellu rhanbarthol. Nid oes unrhyw ymdrech yma i wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o weithgarwch adeiladu, h.y. rhagdybiaeth y bydd y gwariant yn gysylltiedig â math cyffredin o weithgarwch adeiladu yng Nghymru. Rydym yn defnyddio fframwaith tablau mewnbwn–allbwn Cymru i amcangyfrif yr effeithiau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r gwariant.

Mae Tabl C1 yn dangos bod cyfanswm y gwariant adeiladu amcangyfrifedig cysylltiedig â'r ardal a ariennir gan yr UE o Lwybr Arfordir Cymru (2014-15) yn £800,000 (ffynhonnell: CNC – gwariant grant Llwybr Arfordir Cymru, gan gynnwys arian cyfatebol awdurdod lleol, ar gyfer cynnal a chadw a datblygu'r llwybr).

Gan gymryd yr amcangyfrif ystod ganolig o 80% o ffynonellu lleol, amcangyfrifwn unwaith y bydd effeithiau lluosydd y gwariant adeiladu hwn yn cael eu hystyried fod oddeutu £580,000 o werth ychwanegol yn cael ei gefnogi yng Nghymru ac oddeutu 13 swydd cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn.

Fodd bynnag, mae'r tabl hefyd yn dangos pe bai mewnbwn ffynonellu lleol y diwydiant adeiladu'n dod i gyfartaledd o ddim ond 60%, yna byddai cyfanswm o oddeutu £440,000 o werth wedi cael ei gefnogi ac oddeutu deg swydd cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn.

**Tabl C1**
**Amcangyfrif o'r gwerth ychwanegol a chyflogaeth a gefnogir gan Lwybr Arfordir Cymru (yr ardal a ariennir gan yr UE) Gwariant cyfalaf (2014-15)**

| Rhagdybiaeth ffynonellu lleol | 2014-15 | |
|---|---|---|
| | Gwerth ychwanegol (£m) | Cyflogaeth yn fras (swyddi cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn) |
| **Llwybr Arfordir Cymru** | *Gwariant cyfalaf yr ardal a ariennir gan yr UE (£0.800m)* | |
| 100% | 0.720 | 17 |
| 80% | 0.580 | 13 |
| 60% | 0.440 | 10 |

Pwysleisiwn mai rhifau amcangyfrifedig yw'r rhain, ond maent yn datgelu yn ogystal â throsoli gwariant twristiaeth y gall y gweithgarwch datblygu sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru gael effeithiau pwysig ar gyflogaeth.

**EFFEITHIAU GWARIANT CYFALAF AR LWYBR ARFORDIR CYMRU (ARDAL NAS ARIENNIR GAN YR UE)**

Dangosir amcangyfrifon o effeithiau gwariant cyfalaf yn yr ardal nas ariennir gan yr UE ar gyflogaeth a gwerth ychwanegol yn Nhabl C2 (a gyfrifwyd yn defnyddio'r un dull ag uchod). Roedd cyfanswm y gwariant adeiladu amcangyfrifedig cysylltiedig â'r ardal nas ariennir gan yr UE o Lwybr Arfordir Cymru (2014-15) yn £170,000. Gan gymryd yr amcangyfrif ystod ganolig o 80% o ffynonellu lleol, amcangyfrifwn unwaith y bydd effeithiau lluosydd y gwariant adeiladu hwn yn cael eu hystyried fod oddeutu £120,000 o werth ychwanegol yn cael ei gefnogi yng Nghymru ac oddeutu tair swydd cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn.

**Tabl C2**
**Amcangyfrif o'r gwerth ychwanegol a chyflogaeth a gefnogir gan Lwybr Arfordir Cymru (yr ardal nas ariennir gan yr UE) Gwariant cyfalaf (diwedd 2014-15)**

| Rhagdybiaeth ffynonellu lleol | 2014-15 | |
|---|---|---|
| | Gwerth ychwanegol (£m) | Cyflogaeth yn fras (swyddi cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn) |
| **Llwybr Arfordir Cymru** | *Gwariant cyfalaf yr ardal nas ariennir gan yr UE (£0.170m)* | |
| 100% | 0.150 | 4 |
| 80% | 0.120 | 3 |
| 60% | 0.090 | 2 |

**CYFANSWM EFFEITHIAU GWARIANT CYFALAF AR LWYBR ARFORDIR CYMRU (YR ARDAL A ARIENNIR GAN YR UE a'r ARDAL NAS ARIENNIR GAN YR UE WEDI EU CYFUNO)**

Mae'r canlyniadau o Dabl C1 (yr ardal a ariennir gan yr UE) a Thabl C2 (yr ardal nas ariennir gan yr UE) wedi cael eu cyfuno i ddangos amcangyfrif o gyfanswm effaith cyflogaeth a gwerth ychwanegol gwariant adeiladu y gellir ei briodoli i Lwybr Arfordir Cymru yn Nhabl C3.

Amcangyfrifwyd mai £970,000 oedd cyfanswm y gwariant adeiladu cysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru (2014-15). Gan gymryd yr amcangyfrif ystod ganolig o 80% o ffynonellu lleol, amcangyfrifwn unwaith y bydd effeithiau lluosydd y gwariant adeiladu hwn yn cael eu hystyried fod oddeutu £700,000 o werth ychwanegol yn cael ei gefnogi yng Nghymru ac oddeutu 16 swydd cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn.

Fodd bynnag, mae'r tabl hefyd yn dangos pe bai mewnbwn ffynonellu lleol y diwydiant adeiladu'n dod i gyfartaledd o ddim ond 60%, yna byddai cyfanswm o oddeutu £530,000 o werth wedi cael ei gefnogi ac oddeutu 12 swydd cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn.

**Tabl C3**
**Cyfanswm amcangyfrifedig gwerth ychwanegol a chyflogaeth a gefnogir gan Lwybr Arfordir Cymru (yr ardal a ariennir gan yr UE a'r ardal nas ariennir gan yr UE wedi eu cyfuno) Gwariant cyfalaf (2014-15)**

| Rhagdybiaeth ffynonellu lleol | 2014-15 | |
|---|---|---|
| | Gwerth ychwanegol (£m) | Cyflogaeth yn fras (swyddi cyfwerth ag amser llawn dros flwyddyn) |
| **Llwybr Arfordir Cymru** | *Gwariant cyfalaf Llwybr Arfordir Cymru (£0.970m)* | |
| 100% | 0.870 | 21 |
| 80% | 0.700 | 16 |
| 60% | 0.530 | 12 |


Dylid pwysleisio eto mai rhifau amcangyfrifedig yw'r rhain, ond maent yn datgelu yn ogystal â throsoli gwariant twristiaeth y gall y gweithgarwch datblygu sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru hefyd gael effeithiau ychwanegol ar gyflogaeth.

## ATODIAD D: CYMHARIAETH O WARIANT POB OEDOLYN FESUL YMWELIAD RHWNG 2013 A 2015

Gellir defnyddio data sy'n deillio o Arolwg Llwybr Arfordir Cymru 2013 a 2015 i gymharu gwariant cyfartalog ar gyfer pob ymweliad gan oedolyn[14] ag arfordir Cymru rhwng y cyfnodau amser, yn ôl y math o ymweliad (undydd neu dros nos) ac ardal (a ariennir gan yr UE neu nas ariennir gan yr UE).

Mae'r ffigurau gwariant yn Ffigur D1, a ddangosir mewn 'prisiau cyfredol' (nid ydynt wedi cael eu haddasu ar gyfer chwyddiant), yn dangos mai gwariant cyfartalog ymweliad gan oedolyn yn cerdded ar arfordir Cymru yn yr ardal a ariennir gan yr UE (cyfuniad o ymweliadau undydd a thros nos) oedd £16.66, i fyny 4.1% o 2013. Gostyngodd gwariant cyfatebol yr ardal nas ariennir gan yr UE 27.2% i £6.52 rhwng 2013 a 2015. Fe all y dull mwy cadarn o ymchwilio datganiadau gwariant uchel yn drwyadl yn 2015 fod yn ffactor yn y gostyngiad hwn.

**Ffigur D1**: **Cymhariaeth o wariant cyfartalog gan bob oedolyn ar bob ymweliad (£) yn 2013 a 2015, yn ôl ardal**




Mae ymweliadau dros nos yn yr ardal nas ariennir gan yr UE yn cynhyrchu gwariant cymharol uchel (£43.37 gan bob oedolyn ar bob ymweliad yn 2015) o gymharu â'r ardal a ariennir gan yr UE (£32.16 yn 2015). Fodd bynnag, dim ond oddeutu 9% o ymweliadau â'r ardal nas ariennir gan yr UE sydd dros nos, o gymharu â 44% o ymweliadau â'r ardal a ariennir gan yr UE, a dyma'r prif ffactor sy'n ysgogi gwariant

[14] Fel yn y prif adroddiad uchod, roedd pob dydd y daeth unigolyn ar daith i arfordir Cymru'n cyfrif fel un ymweliad. Felly bydd grŵp o bedwar oedolyn yn ymweld unwaith yn cyfrif fel pedwar. Os ydynt yn treulio dau ddiwrnod a dwy noson ar arfordir Cymru, byddant yn cyfrif fel wyth ymweliad.

cyfartalog uwch gan bob oedolyn ar bob ymweliad yn yr ardal a ariennir gan yr UE (£16.66 o gymharu â £6.52 yn 2015, a £16.00 yn yr ardal a ariennir gan yr UE i £8.95 yn yr ardal nas ariennir gan yr UE yn 2013).

## ATODIAD E: EFFAITH ECONOMAIDD GWARIANT YMWELWYR WRTH GERDDED AR ARFORDIR CYMRU 2014

**Yng nghorff yr adroddiad hwn (Adran B, Rhan 3), ceir amcangyfrif o *gyfanswm gwariant taith gyfan* ymwelwyr sy'n dod i gerdded ar arfordir Cymru, h.y. cyfanswm popeth a wariwyd rhwng gadael a dychwelyd adref neu i lety dros nos arall. Dim ond gwariant a wnaed wrth gerdded arfordir Cymru a gynhwysir yn y tablau isod.**

**Tabl E.1: Gwariant uniongyrchol gan oedolion ar daith undydd yn cerdded arfordir Cymru ar hyd rhannau o Lwybr Arfordir Cymru (2014)**

| | Gwariant undydd cyfartalog ar gyfer pob ymweliad gan oedolyn (£) ar hyd Llwybr Arfordir Cymru | Ymweliadau undydd gan oedolion ar gyfer cerdded yr arfordir (miliynau) | Gwariant uniongyrchol ar gyfer ymweliadau undydd (£m) |
|---|---|---|---|
| Ardal a ariennir gan yr UE | 1.74 | 16.545 | 28.8 |
| Ardal nas ariennir gan yr UE | 1.21 | 7.583 | 9.2 |
| Cyfanswm | 1.57 | 24.128 | 38.0 |

**Tabl E.2:** Gwariant uniongyrchol gan oedolion yn cerdded yr arfordir a arhosodd dros nos oddi cartref yng Nghymru (2014)

| | Gwariant dros nos cyfartalog gan bob oedolyn ar bob ymweliad (£) ar hyd Llwybr Arfordir Cymru | Nifer yr unigolion yn aros dros nos (miliynau) | Gwariant uniongyrchol ar ymweliadau dros nos (£ miliynau) |
|---|---|---|---|
| Ardal a ariennir gan yr UE | 3.31 | 12.999 | 43.0 |
| Ardal nas ariennir gan yr UE | 4.88 | 0.750 | 3.7 |
| Cyfanswm | 3.40 | 13.749 | 46.7 |
| | | | |

**Tabl E.3: Cyfanswm niferoedd yr ymwelwyr a gwariant uniongyrchol gan ymwelwyr yn cerdded ar hyd rhannau o Lwybr Arfordir Cymru yn 2014**

| Ardal | Nifer oedolion (miliynau) | Gwariant cyfartalog gan bob oedolyn ar bob ymweliad (£) | Cyfanswm gwariant uniongyrchol cysylltiedig â cherdded arfordir Cymru (£m) |
|---|---|---|---|
| Teithiau dydd yn yr ardal a ariennir gan yr UE | 16.545 | 1.74 | 28.8 |
| Teithiau dros nos yn yr ardal a ariennir gan yr UE | 12.999 | 3.31 | 43.0 |
| Cyfanswm yr ardal a ariennir gan yr UE | 29.544 | 2.43 | 71.8 |
| Teithiau dydd yn yr ardal nas ariennir gan yr UE | 7.583 | 1.21 | 9.2 |
| Teithiau dros nos yn yr ardal nas ariennir gan yr UE | 0.750 | 4.88 | 3.7 |
| Cyfanswm yr ardal nas ariennir gan yr UE | 8.333 | 1.54 | 12.9 |
| CYFANSWM ARFORDIR CYMRU | 37.877 | 2.23 | 84.7 |

**Tabl E.4: Effaith economaidd gwariant ar y llwybr gan ymwelwyr ag arfordir Cymru ar gyfer gweithgareddau cerdded (2014), allbwn ychwanegol**

| | Ardal a ariennir gan yr UE | Ardal nas ariennir gan yr UE | Cyfanswm Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Allbwn ychwanegol (£ miliynau) | 45.9 | 7.9 | 53.8 |

**Tabl E.5: Effaith economaidd gwariant ymwelwyr ag arfordir Cymru ar gyfer gweithgareddau cerdded (2014), gwerth ychwanegol gros**

| | Ardal a ariennir gan yr UE | Ardal nas ariennir gan yr UE | Cyfanswm Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Gwerth ychwanegol gros (£ miliynau) | 21.3 | 3.6 | 24.9 |


**Tabl E.6: Effaith economaidd gwariant ymwelwyr ag arfordir Cymru ar gyfer gweithgareddau cerdded (2014)**

| | Ardal a ariennir gan yr UE | Ardal nas ariennir gan yr UE | Cyfanswm Cymru gyfan |
|---|---|---|---|
| Cyflogaeth (cyfwerth ag amser llawn) | 845 | 145 | 990 |

**Tabl E.7: Effaith economaidd gwariant ar y llwybr gan ymwelwyr yn cerdded ar arfordir Cymru (2014), dadansoddiad yn ôl sector diwydiannol**

| Sector | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynnyrch (£m) | Gwerth ychwanegol gros (£m) | Cyfwerth ag amser llawn |
| Sectorau gweithgynhyrchu | 11.7 | 2.9 | 60 |
| Dosbarthu/Manwerthu | 13.0 | 7.0 | 280 |
| Llety | 2.3 | 1.4 | 70 |
| Bwytai ayyb | 7.3 | 4.0 | 240 |
| Trafnidiaeth a chyfathrebu | 7.0 | 3.0 | 95 |
| Gwasanaethau ariannol a busnes | 5.3 | 3.1 | 75 |
| Sector cyhoeddus | 0.7 | 0.3 | 10 |
| Hamdden ayyb | 5.3 | 2.6 | 130 |
| Pob diwydiant arall | 1.2 | 0.6 | 30 |
| CYFANSWM | 53.8 | 24.9 | 990 |

**Ffigur E.1: Sut mae gwariant uniongyrchol gan ymwelwyr sy'n cerdded ar arfordir Cymru yn cael ei drosglwyddo'n effeithiau**



**AROLWG O YMWELWYR LLWYBR ARFORDIR CYMRU**
**B01445 – TERFYNOL**

| *At ddefnydd y swyddfa:* | *Cyf. y man samplu:* | (1) | (2) | *Rhif achos* | (3) | (4) | (5) | (6) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**EWCH AT OEDOLION 16 OED A HŶN**

Bore/prynhawn da. F'enw i yw ………o *Beaufort Research*, aelod o'r Gymdeithas Ymchwil y Farchnad. Rydyn ni'n gwneud arolwg byr ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall pam a sut mae pobl yn defnyddio llwybr yr arfordir, er mwyn helpu i reoli'r llwybr yn well. Dim ond tua 5 munud y bydd yn ei gymryd i'w gwblhau. Bydd eich atebion yn cael eu cadw gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio. Fyddech chi'n gallu helpu?

S1 Ydych chi'n siarad Cymraeg? Os felly, ydy hynny'n.....? (7)

| | |
|---|---|
| Ydw - rhugl | 1 |
| Ydw – ond nid yn rhugl | 2 |
| Nac ydw | 3 |

**OS YN SIARAD CYMRAEG, GOFYNNWCH S3 CYN PARHAU A'R CYFWELIAD**

S2 Gallwn ni gynnal y cyfweliad hwn yn Gymraeg neu Saesneg - pa un fyddai'n well gennych chi? (8)

| | |
|---|---|
| Saesneg | 1 |
| Cymraeg | 2 |

C1 **COFNODWCH Y DULL Y MAE'R YMATEBYDD YN EI DDEFNYDDIO I DEITHIO AR HYD Y LLWYBR**
**CEWCH DDEFNYDDIO MWY NAG UN COD** (9-12m)

| | |
|---|---|
| Cerdded | 1 |
| Beicio | 2 |
| Marchogaeth | 3 |
| Defnyddio cerbyd ag injan (e.e. beic modur, beic cwad) | 4 |
| Defnyddio cerbyd cymorth/cerbyd i'r anabl | 5 |
| Arall | *6* |

**CERDYN A**

C2 Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau pam rydych chi'n defnyddio'r llwybr heddiw?
**UN COD. AR GYFER "MYND Â'R CI AM DRO" DEFNYDDIWCH DRIP HAMDDEN O'R CARTREF NEU RAN O WYLIAU OS YW'N BRIODOL** (13)

| | |
|---|---|
| Mynd i/o fy ngweithle arferol neu gyrchfan arall | 1 |
| Trip gwaith nad yw'n rhan o'r drefn arferol | 2 |
| Rhan o drip hamdden o'm cartref | 3 |
| Trip hamdden fel rhan o wyliau hirach yng Nghymru | 4 |
| Arall (manylwch) ________________________________ | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| C3 | **CERDYN B**<br>Ar sail yr hyn rydych chi'n ei wybod am y llwybrau ar hyd arfordir Cymru, pa un o'r isod yn eich barn chi yw'r disgrifiad gorau o'r llwybrau arfordirol yng Nghymru?<br>**UN COD** | (20) |
| | Maen nhw wedi'u huno'n un llwybr | 1 |
| | Dydyn nhw ddim wedi'u huno'n un llwybr ond mi fyddant yn y dyfodol agos | 2 |
| | Dydyn nhw ddim wedi'u huno'n un llwybr ond mi fyddant yn y tymor hir | 3 |
| | Dydyn nhw ddim wedi'u huno'n un llwybr ac nid yw hynny'n debygol o ddigwydd byth | 4 |
| | Ddim yn gwybod | 5 |
| C4 | **DARLLENWCH YN UCHEL**<br>Yn 2012 bydd Llwybr Arfordir Cymru'n cael ei greu gan arwain at 850 o filltiroedd o lwybrau ar hyd arfordir y wlad. Mae'n cynnwys llwybrau arfordirol a oedd yn bodoli'n barod ynghyd â darnau sydd wedi cael eu gwella a darnau newydd o lwybr.<br><br>Allwch chi ddweud wrthyf a ydych yn meddwl bod y llwybr rydych chi arno nawr yn..<br>**DARLLENWCH YN UCHEL, UN COD** | (21) |
| | Rhan **a oedd yn bodoli'n barod sydd heb gael ei newid** | 1 |
| | Rhan **sydd wedi cael ei gwella** | 2 |
| | Rhan **newydd** o'r llwybr | 3 |
| | Ddim yn gwybod | 4 |
| C5 | **CERDYN C**<br>Gan feddwl am yr ymweliad hwn, os nad oedd mynediad gennych at y rhan hon o lwybr yr arfordir, beth fyddech chi wedi'i wneud?<br>**UN COD** | (22) |
| | Cerdded/beicio/marchogaeth ceffyl ar hyd llwybr arall yn rhywle arall | 1 |
| | Gwneud y siwrnai mewn car/fan/ar y bws/trên ac ati | 2 |
| | Ddim wedi gwneud y siwrnai na mynd i gerdded/beicio/marchogaeth o gwbl | 3 |
| | Arall | 4 |
| | Ddim yn gwybod | 5 |

C6a **GOFYNNWCH I BAWB**
Sawl oedolyn sydd yn eich parti chi yn cerdded/ beicio/ marchogaeth ar hyd y llwybr heddiw?
**DYLECH GYNNWYS PAWB 16 OED A THROSODD. EICH PARTI CHI = Y RHAI YN YR UN GRŴP SY'N RHANNU CYFRIFOLDEBAU ARIANNOL.**

Cofnodwch nifer yr oedolion

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| (23) | (24) | (25) |

C6b A faint o blant sydd yn eich parti chi yn cerdded/ beicio/ marchogaeth ar hyd y llwybr heddiw?
**DYLECH GYNNWYS PAWB DAN 16 OED.**

Cofnodwch nifer y plant

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| *(26)* | *(27)* | *(28)* |

| | | |
|---|---|---|
| C7 | **DARLLENWCH YN UCHEL. RHOWCH FEIRO I'R YMATEBYDD.**<br>Ar y map isod tynnwch linell i ddangos eich taith ar hyd llwybr yr arfordir heddiw, o'i dechrau i'w diwedd. Marciwch ddechrau'r trip ag S a'r diwedd ag F. Os byddwch chi'n dychwelyd yr un ffordd, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r man pellaf y byddwch yn ei gyrraedd ar y llwybr cyn troi'n ôl.<br><br>**OS NA ALL YR YMATEBYDD DDEFNYDDIO'R MAP, GWELER ISOD**<br><br>**COFNODWCH Y DAITH AIR AM AIR ISOD, GAN ROI CYMAINT Â PHOSIB O FANYLION (ENWAU LLEOEDD, MANNAU O DDIDDORDEB). NODWCH Y MAN CYCHWYN A'R MAN GORFFEN AC – OS BYDD YN DYCHWELYD I'R MAN CYCHWYN – Y MAN PELLAF A GYRHAEDDIR AR HYD Y LLWYBR CYN TROI'N ÔL.** | |
| C8 | A fyddwch chi'n dychwelyd yr un ffordd ar hyd y rhan hon o Lwybr Arfordir Cymru?<br>**UN COD** | (30) |
| | Byddaf | 1 |
| | Na fyddaf | 2 |
| | Ddim yn gwybod | 3 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ***At ddefnydd y swyddfa:*** | *Milltiroedd* | (31) | (32) | (33)<br>● | (34) |

| | | |
|---|---|---|
| C9 | **GOFYNNWCH I BAWB**<br>Sawl milltir yn fras, yn eich tyb chi, y byddwch chi wedi'u teithio heddiw ar hyd llwybr yr arfordir rhwng y man cychwyn a'r man pellaf o'r man cychwyn hwnnw ar y llwybr?<br>**SYLWCH, NID CYFANSWM Y MILLTIROEDD Y BYDDANT YN EU CERDDED HEDDIW – OND CYFANSWM Y MILLTIROEDD AR HYD Y DARN HWN O LWYBR YR ARFORDIR**<br>**OS MAI AMCANGYFRIF A GEIR, RHOWCH Y PWYNT CANOL. OS NAD YDYNT YN GWYBOD, RHOWCH YYYY**<br>Amcangyfrif o nifer y milltiroedd (*e.e. dwy filltir a hanner = 2.5*) [ ] [ ] • [ ] (35) (36) (37) (38) | |

| | | |
|---|---|---|
| C10 | Faint yn fras ydych chi a'ch parti yn disgwyl ei wario yn ystod y canlynol heddiw:<br><br>**[DEFNYDDIWCH SEROS BLAEN. AR GYFER YSTOD, NODWCH Y PWYNT CANOL. OS MAI 'DIM' YW'R ATEB, RHOWCH 0000. OS MAI 'DDIM YN GWYBOD' YW'R ATEB, RHOWCH YYYY. AR GYFER 'GWRTHODWYD', YSGRIFENNWCH ZZZZ]** | |
| | a. wrth deithio ar hyd y rhan hon o lwybr yr arfordir — £ £ £ £ (39) (40) (41) (42) | = gwariwyd heddiw / yn bwriadu gwario |
| | b. ar y trip cyfan heddiw (yn cynnwys gwariant ar hyd y llwybr yn ogystal â chostau tanwydd at y llwybr ac oddi yno, parcio, bwyd, diod a swfenîrs ond heb gynnwys llety — (43) (44) (45) (46) | = gwariwyd heddiw / yn bwriadu gwario |

| | | |
|---|---|---|
| C11 | A yw eich ymweliad â'r llwybr arfordirol hwn yn cynnwys aros dros nos yng Nghymru oddi cartref? | (50) |
| | Ydyw | 1 ➔ **C12** |
| | Nac ydyw | 2 ➔ **C14** |
| | Ddim yn gwybod | 3 ➔ **C14** |

| | |
|---|---|
| C12 | **GOFYNNWCH OS OES YN C11**<br>Am sawl noson fyddwch chi'n aros **yng Nghymru** er mwyn defnyddio llwybr yr arfordir?<br>**AR GYFER 'DDIM YN GWYBOD' DEFNYDDIWCH Y COD AAA**<br>Nodwch y nosweithiau [ ] [ ] [ ] (51) (52) (53) |

| | | |
|---|---|---|
| C13a | **GOFYNNWCH OS OES YN C11**<br>**CERDYN D – CEWCH DDEFNYDDIO MWY NAG UN COD**<br>Ym mha fath o lety fyddwch chi'n aros yng Nghymru? | (54-55m) |
| | Gwesty | 1 → C13b |
| | Tŷ llety / Gwely a Brecwast / Ffermdy | 2 → C13b |
| | Bwthyn / tŷ/ fflat hunanarlwyo | 3 → C13b |
| | Maes gwersylla / carafanau (sefydlog neu deithiol) | 4 → C13b |
| | Hostel neu fyncws | 5 → C13b |
| | Gyda ffrindiau neu deulu | 6 → C14 |
| | Arall | 7 → C14 |

| | |
|---|---|
| C13b | **GOFYNNWCH OS AROS MEWN LLETY WEDI EI DALU AM DANO C13a**<br>Yn fras faint fyddwch chi a'ch criw uniongyrchol yn ei wario ar lety heddiw?<br>**AR GYFER 'DDIM YN GWYBOD' DEFNYDDIWCH Y COD AAA** **£ £ £**<br>Cost am noson unigol ar gyfer criw uniongyrchol (56) (57) (58) |

| | | |
|---|---|---|
| C14 | **GOFYNNWCH I BAWB**<br>**CERDYN E**<br>Pa un o'r isod sy'n disgrifio orau pa mor aml y byddwch chi'n defnyddio llwybr arfordir Cymru? | (59) |
| | Dyddiol | 1 |
| | Wythnosol | 2 |
| | O leiaf unwaith y mis | 3 |
| | O leiaf unwaith y flwyddyn | 4 |
| | Byth bron | 5 |
| | Dyma'r tro cyntaf | 6 |
| C15 | Meddyliwch amdanoch eich hun a phawb sydd yn eich parti (OS YW'N BERTHNASOL) ar lwybr yr arfordir heddiw. Oes unrhyw un ohonoch â phroblem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu sy'n debygol o bara, o leiaf 12 mis ac sy'n cyfyngu ar eich gweithgareddau o ddydd i ddydd?<br>**YN CYNNWYS PROBLEMAU'N DEILLIO O HENAINT** | (60) |
| | Oes – yn cyfyngu'n fawr | 1 |
| | Oes – yn cyfyngu rhyw gymaint | 2 |
| | Nac oes | 3 |
| C16 | **CERDYN F – UN COD**<br>Yn olaf, pa un o'r datganiadau hyn sy'n disgrifio orau eich agwedd arferol o ran perygl a diogelwch wrth ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru? | (61) |
| | Nid wyf yn cymryd unrhyw ofal gan nad wyf yn gweld unrhyw berygl wrth gerdded Llwybr Arfordir Cymru | 1 |
| | Nid wyf yn cymryd unrhyw ofal gan fy mod yn fodlon byw gydag ychydig o berygl | 2 |
| | Rwyf yn cymryd rhywfaint o ofal ac rwyf yn fodlon byw gydag ychydig o berygl | 3 |
| | Rwyf yn cymryd pob gofal angenrheidiol ac yn teimlo'n ddiogel pan wyf yn cerdded | 4 |
| | Ddim yn gwybod | 5 |

**DOSBARTHIAD**
Nawr, rhai manylion i wneud yn siŵr fod ein sampl yn gynrychiadol

**RHYW** (62)

Gwryw 1
Benyw 2

**GWAITH Y PRIF ENILLYDD INCWM ***
**(Swydd ddiwethaf os wedi ymddeol)**

Yr union swydd neu waith: ________________
Safle/gradd: ________________________

**OED** (63-64)
Nodwch ________________________

**STATWS AR YR AELWYD** (65)

| | |
|---|---|
| * Prif Enillydd Incwm | 1 |
| Oedolyn arall (16+ oed) | 2 |

**STATWS GWAITH YR YMATEBYDD** (66)

| | |
|---|---|
| Llawn amser (30+ awr yr wythnos) | 1 |
| Rhan amser (hyd at 29 awr yr wythnos) | 2 |
| Addysg llawn amser | 3 |
| Wedi ymddeol | 4 |
| Ddim yn gweithio | 5 |
| Arall | 6 |

**DOSBARTH CYMDEITHASOL** (67)

| | |
|---|---|
| AB | 1 |
| C1 | 2 |
| C2 | 3 |
| DE | 4 |

* Y Prif Enillydd Incwm yw'r aelod sydd â'r incwm mwyaf ar gyfer yr aelwyd, boed hynny'n sgil gwaith cyflog, pensiynau, budd-daliadau gwladol, buddsoddiadau neu unrhyw ffynhonnell arall. Un ai gwryw neu fenyw.

**BETH YW EICH GRŴP ETHNIG?** **CERDYN G**

| **Gwyn** | (68) | **Cymysg** | | **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | | **Du neu Ddu Prydeinig** | | **Tsieinïaidd neu arall** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 1 | Gywn a Du Caribïaidd | 4 | Indiaidd | 8 | Caribïaidd | C | Tsieinïaidd | F |
| Gwyn Cymreig | 2 | Gwyn a Du Affricanaidd | 5 | Pacistanaidd | 9 | Affricanaidd | D | Arall | G |
| Gwyn arall | 3 | Gwyn ac Asiaidd | 6 | Bangladeshaidd | A | Du arall | E | | |
| | | Cymysg arall | 7 | Asiaidd arall | B | | | | |

| **Mis** | (69) | **Diwrnod o'r wythnos**: | (70) | **Adeg o'r dydd:** | (71) | **Tywydd (ar y cyfan):** | (72) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 1 | Llun | 1 | Cyn hanner dydd | 1 | Heulog | 1 |
| Chwefror | 2 | Mawrth | 2 | Ar ôl hanner dydd | 2 | Cymylog | 2 |
| Mawrth | 3 | Mercher | 3 | | | Cawodydd | 3 |
| Ebrill | 4 | Iau | 4 | | | Glaw | 4 |
| Mai | 5 | Gwener | 5 | | | Gwyntog 5 | |
| Mehefin | 6 | Sadwrn | 6 | | | | |
| Gorffennaf | 7 | Sul | 7 | | | | |
| Awst | 8 | | | | | | |
| Medi | 9 | | | | | | |
| Hydref | A | | | | | | |
| Tachwedd | B | | | | | | |
| Rhagfyr | C | | | | | | |

**DARLLENWCH YN UCHEL**

Mae *Beaufort Research* yn cynnal ôl-wiriadau ar sampl o gyfweliadau i wneud yn siŵr eu bod wedi cael eu cynnal yn unol â'n gweithdrefnau. Am y rheswm hwn, hoffem gael eich cyfeiriad a'ch rhif ffôn, ond nid oes rhaid ichi eu rhoi. Ni fydd y manylion hyn yn cael eu trosglwyddo i Gyngor Cefn Gwlad Cymru nac i unrhyw drydydd parti. Dim ond i wirio canran fechan o'r cyfweliadau a gynhelir gennym y cânt eu defnyddio. Fyddech chi'n fodlon rhoi eich manylion cyswllt inni?

Enw'r ymatebydd: ____________________

Cyfeiriad: ____________________ Sir (Gwlad os yw y tu allan i'r DU): _______

| Cod post | | | | | | | | Rhif ffôn: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (73) | (74) | (75) | (76) | (77) | (78) | (79) | |

**DIOLCHWCH I'R YMATEBYDD: DEWCH Â'R CYFWELIAD I BEN: RHOWCH DAFLEN DDIOLCH**

**<u>INTERVIEWER DECLARATION:</u>** I declare that I have conducted this interview in accordance with your instructions.

Signature: ____________________

| | D | D | M | M | Y | Y | INTERVIEWER NO. | | | | Accompanied: | *Supervisor signature:* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Date of interview: | (80) | (81) | (82) | (83) | (84) | (85) | (86) | (87) | (88) | (89) | Yes 1<br>No 2 | |

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan:
E-bost: library@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk